Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuenctid:

# Cam 3: Adroddiad Cryno

# Ionawr 2025

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl**: Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuenctid

**Is-deitl**: Cam 3 Adroddiad Cryno, Mawrth 2025

**Tîm Ymchwil:** Nichola Welton (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Robert Leigh (Prifysgol Wrecsam), Mandy Robbins (Prifysgol Wrecsam), Louise Cook (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), Alex Drury, (Prifysgol Wrecsam).

Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru

Is-adran: Cangen Ymgysylltu Ieuenctid

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn:

Ebost: **Youthwork@gov.Wales**

# Cynnwys

1. Rhagarweiniad ...... 3

Cynnwys yr Adroddiad ...... 3

2. Yr ymchwil a wnaed ...... 4

Adolygiad o'r Llenyddiaeth ...... 4

Meintiol ...... 5

Ansoddol ...... 6

3. Deilliannau ansoddol ...... 8

Cyfyngiadau data ansoddol ...... 12

4. Argymhellion ...... 13

5. Cyfeiriadau ...... 14

6. Darllen Ychwanegol ...... 14

7. Atodiad: Vignettes Ansoddol o Grwpiau Ffocws ...... 21

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r ymchwil a wnaed ar gyfer cam 3 yr Adolygiad o Gyllido Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

1.2 Nod y trydydd cam terfynol hwn oedd: cynnal archwiliad o werth economaidd a chymdeithasol gwaith ieuenctid yng Nghymru. Amcanion cam 3 oedd:

- Adnabod a diffinio effeithiau cymdeithasol ac economaidd gwaith ieuenctid trwy archwiliad y llenyddiaeth; data a gasglwyd trwy Gam 2 yr ymchwil hwn; a chasglu data ansoddol oddi wrth bobl ifanc a budd-ddeiliaid eraill.
- Adnabod ym mha feysydd effaith y mae data meintiol ar gael yn barod er mwyn gallu asesu buddion economaidd gwaith ieuenctid.
- Defnyddio'r ffynonellau hyn i gynnal asesiad o effeithiau economaidd gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- Casglu a chyflwyno safbwyntiau sampl digonol o bobl ifanc sydd wedi manteisio ar waith ieuenctid, cyfoethogi'r buddion economaidd a macro gyda chyd-destun cymdeithasol ac unigol a dyfnhau dealltwriaeth o fecanweithiau cymhleth a gorgyffyrddol gwaith ieuenctid y daeth yr ymchwil hwn ar eu traws.

1.3 Defnyddiodd cam 3 drefn dulliau cymysg (meintiol ac ansoddol) i amcangyfrif gwerth economaidd gwaith ieuenctid ar draws Cymru. Y bwriad oedd cefnogi'r dadansoddiad economaidd meintiol gyda thystiolaeth gyd-destunol ansoddol berthnasol gan fudd-ddeiliaid allweddol o'r sector gwaith ieuenctid, gan gynnwys uwch arweinyddion a phobl ifanc.

## Cynnwys yr Adroddiad

1.4 Bydd yr adroddiad cryno hwn: Yn gyntaf, yn amlinellu'r ymchwil a wnaed ar gyfer cam 3. Yn ail, bydd yn cyflwyno trosolwg o'r deilliannau data ansoddol gan gynnwys cyfyngiadau. Yn drydydd, bydd yn gwneud agymhellion i Lywodraeth Cymru a'r sector i ystyried ymchwil i'r dyfodol all alluogi dadansoddiad o werth economaidd gwaith ieuenctid.

## 2. Yr ymchwil a wnaed

### Adolygiad o'r Llenyddiaeth

2.1 Cynhaliwyd adolygiad cwmpasu ar y pum maes effaith gymdeithasol ac economaidd a gafodd eu hadnabod (gweler adran 2.3) er mwyn gallu adnabod ymchwil priodol sy'n bod yn barod y gellid ei ddefnyddio o fewn y dadansoddiad economaidd gan gynnwys data meintiol perthnasol. Roedd hyn yn cynnig y fantais hefyd o allu adnabod bylchau mewn gwybodaeth a/neu fynediad at dystiolaeth sy'n bod yn barod. Edrychodd yr adolygiad hefyd ar yr offerynnau a ddefnyddiwyd i gynnal gwaith ymchwil ymhlith pobl ifanc. Cynhyrchodd y tîm ymchwil gronfa ddata er mwyn cofnodi'r holl ffynonellau a adolygwyd a'u perthnasedd i nodau'r astudiaeth.

2.2 Defnyddiwyd nifer o feini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad cwmpasu. Yn gyntaf, astudiaethau effaith economaidd o waith ieuenctid yn Lloegr, Iwerddon, Yr Alban, a Chymru. Dangosodd yr adolygiad o'r llenyddiaeth, er bod y rhain yn feysydd bras ag iddynt fframweithiau dehongliadol gwahanol, eu bod oll yn gallu cynnig rhywfaint o ddata effaith allai fod yn addas i'w ddefnyddio mewn dadansoddiad. O fewn hynny cydnabyddir fod peth o'r data yn fwy diweddar a/neu'n fwy cadarn na data arall. Cynhwyswyd cyfanswm o 45 ffynhonnell yn yr adolygiad o dan dri maen prawf eithrio: perthnasedd y data, ei addasrwydd i waith ieuenctid yng Nghymru ac eglurder y dull o gasglu'r data. Yn benodol, eithriwyd ffynonellau os nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar y dulliau casglu data neu feintiau'r sampl neu pan nad oedd y data yn ymwneud â phobl ifanc.

2.3 O'r adolygiad hwn, a data dangosol arall o gam 2, dewiswyd pum maes ar gyfer ystyried effaith gwaith ieuenctid, a'r buddion economaidd dilynol a ddarparwyd gan y sector gwaith ieuenctid. Y meysydd yw: Diogelwch cymunedol; Addysg a chyflogaeth; Cymuned a gwirfoddoli; Tai a digartrefedd ac iechyd, Iechyd meddwl emosiynol a llesiant. Cydnabuwyd nad yw'r meysydd hyn yn annibynnol ar ei gilydd ond bod cysylltiad annatod rhyngddynt. Cydnabuwyd hefyd fod llesiant pobl ifanc yn edefyn sy'n rhedeg trwy'r holl themâu.

## Meintiol

2.4 Roedd gwerthusiad economaidd yn fwriad allweddol ar gyfer cam 3 yr ymchwil hwn. Cynhaliwyd adolygiad i adnabod a defnyddio ystod eang o dystiolaeth. Blaenoriaethwyd astudiaethau yn ymwneud â Chymru yn yr adolygiad. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ddigon cadarn ar gael i adlewyrchu cwmpas y gwaith ieuenctid a ddarperir ar draws Cymru. Archwiliwyd technegau gwahanol i amcangyfrif gwerth gwaith ieuenctid i economi Cymru, ond oherwydd nad oedd digon o ddata ni ellid modelu'r berthynas rhwng gwaith ieuenctid a deilliannau economaidd yn ddigonol. Cytunodd y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru nad oedd yn briodol cyhoeddi'r canlyniadau.

2.5 Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r tîm ymchwil yn argymell, er mwyn symud ymlaen i asesu gwerth economaidd gwaith ieuenctid, fod angen sefydlu corff cadarn o dystiolaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn galw am ddatblygu gwell systemau monitro ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid er mwyn gallu cofnodi ac asesu deilliannau. Hefyd, bydd archwilio ymyriadau unigol yn fanwl gyda chasgliad penodol o ddeilliannau yn dechrau adeiladu'r corff tystiolaeth hwn a sefydlu amcangyfrifon ar gyfer modelau economaidd i'r dyfodol.

## Ansoddol

2.6 Defnyddiodd Cam 3 ddull ansoddol o gasglu data yn ogystal â dadansoddiad economaidd meintiol. Grwpiau ffocws oedd y prif ddull a ddefnyddiwyd i gasglu data. Y bwriad wrth gynnal grwpiau ffocws oedd dangos potensial gwaith ieuenctid yn y meysydd effaith a amlinellwyd yn y dadansoddiad economaidd meintiol, o safbwynt person ifanc ac o safbwynt arweinydd strategol. Yn ogystal â grwpiau ffocws, defnyddiwyd data sydd ar gael yn gyhoeddus ar y prosiectau gwaith ieuenctid a gynrychiolir yn yr ymchwil ynghyd â gwybodaeth a ddarparwyd gan arweinyddion prosiectau gwaith ieuenctid. Casglwyd hynny er mwyn gallu gosod pob grŵp ffocws mewn cyd-destun a helpu darparu trosolwg naratif o'r maes prosiect gwaith ieuenctid oedd yn cael ei archwilio.

***Sampl o Grwpiau Ffocws***

2.7 Defnyddiwyd strategaeth bwrpasol ar gyfer samplo budd-ddeiliaid ar gyfer yr holl grwpiau ffocws ansoddol gyda'r bobl ifanc a gyda'r arweinyddion strategol ar gyfer gwaith ieuenctid. Nid oedd yn fwriad i'r data hwn o grwpiau ffocws fod yn gynrychioliadol o'r holl bobl ifanc neu fudd-ddeiliaid ar draws Cymru, ond roeddent yn darparu enghreifftiau o safbwyntiau cyd-destunol a chan fudd-ddeiliaid allweddol na ellid eu casglu trwy ystyried gwerthoedd ariannol yn unig (Dopp, et al. 2019). Nid oedd nod a chwmpas yr astudiaeth yn addas ar gyfer ymchwil ehangach ar draws Cymru, ond cydnabyddir y byddai astudiaeth ehangach yn ddefnyddiol i waith ieuenctid yng Nghymru (Gweler adrannau 3.4 Cyfyngiadau a 4. Argymhellion).

2.8 Mae Tabl 1 yn amlinellu'r sampl o grwpiau ffocws pobl ifanc. Dewiswyd pum prosiect gwaith ieuenctid gwahanol, ac roedd pob prosiect yn cynrychioli un maes effaith fel ei brif flaenoriaeth (gweler Tabl 1). Felly, roedd pob grŵp ffocws yn archwilio un maes effaith gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, cydnabuwyd fod gwaith ieuenctid yn gweithio mewn ffordd holistaidd gyda phobl ifanc, ac felly ni fyddai ynysu un maes effaith yn bosib, a byddai buddion ehangach y prosiectau yn debygol o gael eu hadnabod (gweler adran 3).

2.9 Cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda gwneuthurwyr penderfyniadau strategol sy'n datblygu a gweithredu gwaith ieuenctid yng Nghymru, un gyda phrif weithredwyr yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol (VYWS) a dau gydag arweinyddion strategol awdurdodau lleol ar gyfer gwaith ieuenctid, sef prif swyddogion ieuenctid (PYO) (Tabl 2 isod).

### *Dadansoddiad o Ddata Grwpiau Ffocws*

2.10 Ar gyfer data'r grwpiau ffocws, defnyddiwyd dadansoddiadau thematig ansoddol. Mabwysiadwyd ac addaswyd dau ddull yn yr astudiaeth:

- Dull dadansoddi thematig chwe cham (Braun and Clarke 2023)
- Dull uniongyrchol o ddadansoddi ac adolygu thematig (Greenwood, et.al. 2017; Halcomb & Davidson, 2006).

**Tabl 1: Grwpiau ffocws gyda phobl ifanc**

| **Maes budd** | **Grŵp Ffocws**<br>**Darpariaeth gwaith ieuenctid** | **Nifer a gymerodd ran yn y grŵp ffocws** |
|---|---|---|
| 1. Diogelwch cymunedol | Prosiect yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol yn arbenigo ar symud pobl ifanc i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol | 9<br>Ystod oed 16-26[1] |
| 2. Addysg & chyflogaeth | Prosiect ymgysylltu ac ail-integreiddio adran addysg awdurdod lleol | 7<br>Ystod oed 12-13 |
| 3. Ymglymiad cymunedol & gwirfoddoli | Canolfan sector gwaith ieuenctid gwirfoddol, lleol, "galw heibio" mynediad agored | 5<br>Ystod oed 12-15 |
| 4. Digartrefedd | Prosiect digartrefedd gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol | 4<br>Ystod oed 18-25 |
| 5. Iechyd, iechyd meddwl emosiynol a llesiant | Prosiect iechyd emosiynol a llesiant mewn awdurdod lleol | 6<br>Ystod oed 14-18 |

**Tabl 2: Grwpiau ffocws gyda gwneuthurwyr penderfyniadau strategol**

| **Grŵp Ffocws** | **Nifer yn y Grwpiau Ffocws** |
|---|---|
| 1 x prif weithredwr yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol | Cyfanswm o 14: 6 lleol ac 8 cenedlaethol |
| 2 x arweinydd strategol mewn awdurdodau lleol | 1x Grŵp Ffocws = 11<br>1x Grŵp Ffocws = 10<br><br>Cyfanswm o 21 |

[1] Roedd y bobl ifanc yn y grŵp ffocws hwn yn wirfoddolwyr ac yn ymchwilwyr cyfoed am dâl yn y prosiect, ac roeddent felly'n cymryd rhan yn y prosiect ac yn aelodau o'r tîm.

## 3. Deilliannau ansoddol

3.1 Mae Adran 2.4-2.5 yn amlinellu'r dull meintiol a ddefnyddiwyd yng ngham 3 a'r cyfyngiadau. Cyflwynir crynodeb o'r deilliannau o'r data ansoddol isod, gan gynnwys cyfyngiadau.

3.2 Mae'r pum grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ifanc a'r tri gyda gwneuthurwyr penderfyniadau strategol (gweler Tablau 1 & 2) yn dangos sut mae gwaith ieuenctid yn gwneud cyfraniad cadanhaol i'r meysydd effaith economaidd a adnabuwyd. Rhoddodd pob un o'r grwpiau ffocws hyn dystiolaeth fod y meysydd effaith yn rhyng-gysylltiedig a bod angen dull aml-ddimensiwn o edrych arnynt, gan ddangos sut all gwaith ieuenctid gefnogi pobl ifanc mewn ffordd holistaidd ar draws y meysydd effaith economaidd a adnabuwyd.

3.3 Amlinellir crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'r grwpiau ffocws yma, a cheir rhagor o hanesion manylach (vignettes) y grwpiau ffocws yn yr Atodiad.

i. Maes effaith, Diogelwch cymunedol:

Darluniodd y grŵp ffocws hwn waith mudiad gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol sy'n darparu prosiect i geisio symud pobl ifanc i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol. Dangosodd y grŵp ffocws, yn ogystal â mynd i'r afael â thrais ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol ymhlith pobl ifanc, y cafodd y prosiect effaith gadarnhaol ar lesiant y bobl ifanc. Yn benodol felly, dangosodd canfyddiadau'r grŵp ffocws fod y prosiect wedi creu ymdeimlad cryf o bwrpas a pherthyn ymhlith y bobl ifanc ac o deimlo eu bod yn cael eu derbyn waeth beth yw eu hethnigrwydd neu gefndir.

Dangosodd y grŵp ffocws gyda phrif weithredwyr mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol (VYWCE) ac arweinyddion strategol awdurdodau lleol (LASL) ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid fod diogelwch cymunedol yn gysyniad amlweddog ac y gall gwmpasu nifer o safbwyntiau a diffiniadau gwahanol. Barnwyd fod gwaith ieuenctid yn creu nifer o effeithiau yn y maes hwn, gan gynnwys cynnig cefnogaeth a lleoedd diogel i bobl ifanc (yn enwedig felly o ran gwaith ieuenctid cymunedol); cynnig gweithgareddau

dargyfeiriol a barnwyd ei fod yn helpu mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion llinellau sirol.

ii. Maes effaith, Addysg a chyflogaeth:

Roedd prosiect ymgysylltu ac ail-integreiddio adran addysg awdurdodau lleol yn cynnig dewisiadau eraill yn lle eithrio disgyblion o'r ysgol.

Dangosodd prif ganfyddiadau'r grŵp ffocws hwn mai gallu gweithwyr ieuenctid i sefydlu perthnasoedd effeithiol gyda'r bobl ifanc oedd yr allwedd i lwyddo i ennyn eu diddordeb. Hefyd, dangosodd y canfyddiadau fod y prosiect yn darparu profiadau cadarnhaol o addysg, oedd yn galluogi pobl ifanc i weld y cyfleoedd allai fod ar gael iddynt yn y dyfodol.

Dangosodd y grŵp ffocws hwn hefyd sut all cefnogi pobl ifanc trwy ddull gwaith ieuenctid er mwyn ail-sefydlu cysylltiad ag addysg arwain at effeithiau cadarnhaol eraill; yn y cyswllt hwn cyfrannodd y prosiect hefyd at atal troseddu a llai o gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Trafododd y grŵp ffocws gyda phrif weithredwyr mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol (VYWCE) ac arweinyddion strategol awdurdodau lleol (LASL) ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid bwysigrwydd datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol trwy waith cymdeithasol i helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant.

iii. Maes effaith, Ymglymiad cymunedol a gwirfoddoli:

Mae'r canfyddiadau o grŵp ffocws canolfannau mynediad agored yn y sector gwirfoddol yn awgrymu y darperir cyfleoedd gwirfoddoli sylweddol ac amrywiol ar gyfer pobl ifanc. Roedd y cyfleoedd hyn yn caniatáu i bobl ifanc fod yn fwy gweithgar yn eu cymuned, rhoi cynnig ar bethau newydd a gwneud ffrindiau newydd, gan arwain at ddatblygu sgiliau personol / cymdeithasol, sgiliau cyflogadwyedd a bywyd, a gwell cysylltiad gyda'u cymuned leol.

Roedd y grŵp ffocws gyda phrif weithredwyr mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol (VYWCE) ac arweinyddion strategol awdurdodau lleol (LASL) ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yn gweld fod ymglymiad cymunedol a gwirfoddol yn bwysig, ac yn enwedig felly yn y sector gwirfoddol, er mwyn helpu pobl ifanc i integreiddio yn eu cymunedau.

iv. Digartrefedd:

Mae tystiolaeth o'r grŵp ffocws hwn yn awgrymu fod dull holistaidd yr awdurdodau lleol o ymdrin â digartrefedd mewn gwaith ieuenctid yn cadw pobl ifanc yn ddiogel ac oddi ar y strydoedd trwy ymrymuso pobl ifanc i allu cymryd rheolaeth ar eu bywydau a byw'n annibynnol, ac mae'r gwasanaeth cofleidiol yn arwain at lefelau llesiant uwch.

Dangosodd prif ganfyddiadau'r grŵp ffocws hwn fanteision dull o ddarparu gwaith ieuenctid sy'n cwmpasu anghenion holistaidd y person ifanc, gan gynnwys cynnig cefnogaeth gyda chymhlethdodau gwneud cais am dŷ a gofalu amdano, adeiladu perthnasoedd ymddiriedgar cadarnhaol, darparu eiriolaeth a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer ymrymuso a hunan-ddigonolrwydd.

Yn benodol, roedd y perthnasoedd ymddiriedgar cadarnhaol yr oedd y bobl ifanc yn dweud fod ganddynt gyda'u gweithwyr ieuenctid yn ffactor allweddol yn y prosiect. Roedd y bobl ifanc yn dweud hefyd fod eu galluogi i gael llais ac i ddylanwadu ar benderfyniadau yn bwysig iddynt.

Dangosodd y grŵp ffocws gyda phrif weithredwyr mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol (VYWCE) ac arweinyddion strategol awdurdodau lleol (LASL) ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid fod gwaith ieuenctid yn chwarae rôl bwysig yn dod o hyd i bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref, ac roedd darparu'r sgiliau bywyd annibynnol ar gyfer pobl ifanc yn cael ei ystyried yn rhan naturiol o waith ieuenctid.

v. Maes effaith, Iechyd, iechyd meddwl emosiynol a llesiant:

Mae’r grŵp ffocws gyda gwasanaeth iechyd emosiynol a llesiant awdurdod lleol yn dangos sut all mentrau gwaith ieuenctid ymateb i anghenion pobl ifanc a chynnig cefnogaeth briodol iddynt.

Dangosodd prif ganfyddiadau’r grŵp ffocws hwn fod gwaith ieuenctid wedi darparu rhwydweithiau o gefnogaeth i bobl ifanc a rhoi ‘rhywun i siarad â nhw’. Roeddent yn sôn sut mae cefnogaeth gwaith ieuenctid wedi adeiladu eu hyder a’u hannog i chwarae rhan barod mewn gweithgareddau sy’n ceisio gwella iechyd emosiynol a llesiant. Roedd pobl ifanc yn teimlo fod y gefnogaeth hon yn lleihau lefelau unigedd cymdeithasol, gorbryder, agweddau ymosodol a thrais. Roedd cydnabyddiaeth hefyd fod y prosiect yn helpu pobl ifanc i ddatblygu mwy o wybodaeth a sgiliau.

Trafododd y grŵp ffocws gyda phrif weithredwyr mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol (VYWCE) ac arweinyddion strategol awdurdodau lleol (LASL) ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid fod iechyd emosiynol a llesiant yn faes gwaith y mae gwaith ieuenctid yn ymwneud ag ef fwy a mwy. Fe nododd y gwasanaethau ieuenctid gwirfoddol a than awdurdodau lleol fod gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, yn hollbwysig er mwyn gallu darparu cefnogaeth briodol i bobl ifanc. Disgrifiodd un mudiad gwaith ieuenctid gwirfoddol eu profiadau o sut all dull gwaith ieuenctid wneud cyfraniad cadarnhaol i ddeilliannau tymor byr a thymor hirach ar gyfer iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc.

vi. Natur holistaidd gwaith ieuenctid:

Mae’n amlwg o’r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda phobl ifanc y gellir gweld fod gan y pum maes effaith ddeilliannau cyffredinol a’u bod yn rhyng-gysylltiedig. Bernir fod hyn yn ganlyniad natur holistaidd dull gwaith ieuenctid a’i egwyddorion a phwrpasau sylfaenol, sef,

> “...galluogi pobl ifanc i ddatblygu’n holistaidd, gweithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgiadol, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu llais, dylanwad a lle yn y gymdeithas a chyflawni eu llawn botensial” (NOC YW, 2019).

Pwysleisiodd y grwpiau ffocws ar gyfer arweinyddion strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ei bod yn anodd gwahanu effaith gwaith ieuenctid yn y pum maes effaith oherwydd egwyddorion a phwrpasau sylfaenol gwaith ieuenctid a’i ffordd o gefnogi pobl ifanc yn holistaidd.

## Cyfyngiadau data ansoddol

3.4 Roedd cyfyngiadau’r ymchwil ansoddol a gynhaliwyd yn yr astudiaeth hon fel a ganlyn:

i. Mae data’r grŵp ffocws ansoddol yn seiliedig ar sampl bychan, ac nid yw’n gynrychioliadol o waith ieuenctid ar draws Cymru, nac o bobl ifanc. Fodd bynnag, nid oedd yn fwriad i’r grŵp ffocws fod yn gynrychioliadol; y nod yn hytrach oedd darlunio a darparu data cyd-destunol ar gyfer y dadansoddiad economaidd a dangos potensial gwaith ieuenctid.

ii. Mae cyfuno dulliau ymchwil ansoddol a meintiol a chanddynt ddulliau dadansoddi gwahanol yn amlygu’r heriau o safbwynt ansoddol o ynysu newidynnau mewn sefyllfa byd go iawn o fewn cyd-destun cymdeithasol cymhleth. Mae’r adolygiad o’r llenyddiaeth a’r grwpiau ffocws ansoddol yn dangos fod gan y pum maes effaith ddeilliannau cyffredin a’u bod yn rhyng-gysylltiedig.

iii. Roedd grŵp ffocws yr arweinyddion strategol gyda’r VYWSO yn un mawr, sef 14 o bobl. Yn ddelfrydol dylai grŵp ffocws gynnwys rhwng 8-10 o bobl, i sicrhau bod yr holl aelodau’n gallu cael llais. Fodd bynnag, defnyddiwyd dull pragmataidd a moesegol er mwyn casglu cymaint o farnau â phosib gyda grŵp o fudd-ddeiliaid allweddol oedd yn gallu rhoi eu hamser gwerthfawr ar gyfer cyfarfod grŵp ffocws. Er mwyn lliniaru maint y grwpiau, danfonwyd rhestr o’r cwestiynau fyddai’n cael eu gofyn at bob aelod a gofynnwyd iddynt ymateb gydag unrhyw bwyntiau eraill, wedi’r cyfarfod; danfonodd sawl aelod fwy o wybodaeth.

## 4. Argymhellion

4.1 **Argymhelliad 1:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ystyried cynnal astudiaeth ansoddol ehangach sy'n cynrychioli gwaith ieuenctid yng Nghymru, er mwyn cael mwy o dystiolaeth o'r dull holistaidd a chroestoriadol ar gyfer gwaith ieuenctid ddaeth yn amlwg yn yr ymchwil.

4.2 **Argymhelliad 2:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ystyried sut all data ar bobl ifanc yng Nghymru gael ei gasglu mewn ffordd systematig i sicrhau y gellir llunio casgliadau priodol ynghylch gwerth economaidd a chymdeithasol gwaith ieuenctid yng Nghymru.

4.3 **Argymhelliad 3:** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ystyried sut ellir safoni gwaith casglu data gan y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru ar draws Cymru, fel y gellir gwneud cymariaethau priodol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Dylid ystyried hyfforddiant a/neu gefnogaeth er mwyn gwneud y gwaith hwn mewn ffordd gyson.

## 5. Cyfeiriadau


Braun, V., & Clarke, V. (2022). *Thematic analysis: a practical guide*. SAGE Publications.

Dopp, A.R., Mundey, P., Beasley, L.O., Silovsky, J.F., and Eisenberg, D. (2019) *Mixed-method approaches to strengthen economic evaluations in implementation research* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://doi.org/10.1186/s13012-018-0850-6, Darllenwyd Mai, 2024.

Greenwood M, Kendrick T, Davies H, Gill FJ. (2017) Hearing voices: Comparing two methods for analysis of focus group data. *Appl Nurs Res. 2017 Jun; 35:90-93* [Ar-lein]. Ar gael yn: Hearing voices: Comparing two methods for analysis of focus group data - PubMed (nih.gov)

Halcomb, E.J., and Davidson, P.M. (2006) 'Is verbatim transcription of interview data always necessary?'. *Applied Nursing Research, Vol. 19(1*). 2006, 38-42. [Ar-lein].


## 6. Darllen Ychwanegol


Allen, G., Carthew, H., & Zayed, Y. (2023) *Knife crime statistics: England and Wales*. House of Commons Library

All-Party Parliamentary Group on Knife Crime & Violence Reduction (APPG) (2020). *Securing a brighter future: The role of youth services in tackling knife crime.* http://www.preventknifecrime.co.uk/wpcontent/uploads/2020/03/Securing-a-brighter-future-the-role-of-youth-services-in-tackling-knife-crime-v.2.pdf. [Darllenwyd Mehefin 2024).

Arad Research (2023). Asesiad o Werth Economaidd Urdd Gobaith Cymru 2023. Adroddiad ar gyfer Urdd Gobaith Cymru. [Darllenwyd Mai 2024].

Bacon, E. (2023) *Mapping and analysing the voluntary youth work sector in Wales*. Unpublished MRes Dissertation University of South Wales / Prifysgol De Cymru
Bath SDR (2024) *Safer Streets Fund – QuIP Study* Ar gael yn: https://bathsdr.org/safer-streets-fund-quip-study/ [Darllenwyd Gorffennaf 2024]


Bath SDR (2024) *Safer Streets Fund – QuIP Study* Ar gael yn: https://bathsdr.org/safer-streets-fund-quip-study/ [Darllenwyd Gorffennaf 2024]


Bathgate and Bird (2013) *Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education and Training'* [Ar-lein] Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/131001-identifying-young-people-risk-becoming-not-employment-education-training-en.pdf [Darllenwyd 15/07/24]

Bevan Foundation (2019) *Education: Young people who are NEET* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.bevanfoundation.org/wp-content/uploads/2019/05/State-of-Wales-briefing-NEET-final.pdf [Darllenwyd Gorffennaf 2024)

BERA. (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research (4th Edition).* BERA.[Ar-lein} Ar gael o: https://www.bera.ac.uk/resources/all-publications/resources-for-researchers (Darllenwyd September, 23).

Big Lottery Fund (2018) Preventing serious youth violence – what works? Insights and examples from the community and voluntary sector. 2018 Knowledge and Learning Insights.

Brand, S., and Price, R. (2000). The economic and social costs of crime. Ar gael yn: https://mpra.ub.uni-muenchen.de/74968/1/MPRA_paper_74968.pdf. [Darllenwyd Mehefin 2024].
Coles, B., Godfrey, C., Keung, A., Parrott, S. and Bradshaw, J., (2010). *Estimating the life-time cost of NEET: 16–18 year olds not in Education, Employment or Training*. York: University of York.

Campbell, S., Greenwood, M., Prior, S., Shearer, T., Walkem, K., Young, S., Bywaters, D. and Walker, K. (2020) 'Purposive sampling: complex or simple? Research case examples', *Journal of research in nursing,* 25(8), pp. 652-661 Ar gael yn: https://doi.org/10.1177/1744987120927206, Darllenwyd Mai 2024.

Community Learning and Development Scotland (2019). *National Occupational Standards for Youth Work.* Ar gael yn Youth Work National Occupational Standards 2019 Introduction (cldstandardscouncil.org.uk) [Darllenwyd Tachwedd, 2022].

Department of Culture Media and Sport (DCMS) (2019) *National Youth Social Action Survey: Wave 6* Ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5f9b19c0e90e074f5632f64d/National_Youth_Social_Action_Survey_2019_-_Technical_Report-c.pdf [Darllenwyd Gorffennaf 24]

Department of Culture Media and Sport (DCMS) (2023) *Community Life Survey 2021/22: Volunteering and charitable giving* UK Government. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/community-life-survey-202122/community-life-survey-202122-volunteering-and-charitable-giving [Darllenwyd Gorffennaf 24]
Dibben, C., Playford, C., Mitchell, R (2020). Be(ing) prepared: Guide and Scout participation, childhood social position and mental health at age 50- a prospective birth cohort study. Darllenwyd Mehefin 2024.

Estyn (2016) *Education Other Than at School* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/EOTAS%2520remit%2520report.pdf [Darllenwyd Gorffennaf 24]

Estyn (2023) *Equity of Curriculum Experiences for Pupils Who Are Educated Other Than at School (EOTAS)* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2024-02/Equity%20of%20curriculum%20experiences%20for%20pupils%20who%20are%20educated%20other%20than%20at%20school%20%28EOTAS%29_0.pdf [Darllenwyd Gorffennaf 24]

Estyn (2024) *Youth Engagement and Progression Framework Lead Worker Review*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2024-07/Youth%20Engagement%20and%20Progression%20Lead%20Worker%20Review_0.pdf [Darllenwyd Gorffennaf 24]

Fletcher, A., Harden, A., Brunton, G., Oakley, A., Bonell, C. Interventions addressing the social determinants of teenage pregnancy (2008). Darllenwyd Mehefin 2024.

Gilgun, J. F. (2020). Writing Up Qualitative Research. In *The Oxford Handbook of Qualitative Research*. Oxford University Press.

Haski-Leventhal, D., Ronel, N., York, A. S., & Ben-David, B. M. (2008). Youth volunteering for youth: Who are they serving? How are they being served?. *Children and Youth Services Review*, *30*(7), 834-846. [Darllenwyd Mehefin 2024]

Hall Aitken (2016). Social and Economic Value of Youth Work in Scotland: An initial assessment. Report commissioned by YouthLink Scotland. [Darllenwyd Mai 2024].

Heller (2014) Summer jobs reduce violence among disadvantaged youth. Ar gael yn: https://www.scienceintheclassroom.org/sites/default/files/research-papers/science-2014-heller-1219-23.pdf. [Darllenwyd Mai 2024].

Hennink, Monique M., and Patricia Leavy. (2014). *Understanding Focus Group Discussions*, Understanding Statistics. Oxford Academic. [Ar-lein] Ar gael yn https://doi.org/10.1093/acprof:osobl/9780199856169.001.0001, Darllenwyd Mai 2024.

Interim Youth Work Board (2021). Time to deliver for young people in Wales Achieving a sustainable delivery model for youth work services in Wales. Youth Engagement Branch, Llywodraeth Cymru. https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-09/achieving-a-sustainable-delivery-model-for-youth-work-services-in-wales-final-report.pdf, Darllenwyd Gorffennaf 2024.

Llamau (2022/23). Impact Report. https://indd.adobe.com/view/d37d994f-cb4b-4ca2-aecf-faeac7f320ad [Darllenwyd Mai 2024].

Lundie, J., Rees, S., & Jones, R. D. (2022). *The varied responses of the voluntary sector in Wales to the COVID-19 pandemic*. In I. Hardill, J. Grotz, & L. Crawford (Eds.), *Mobilising Voluntary Action in the UK: Learning from the Pandemic* (pp. 128-150). Bristol University Press.

Maxwell, N. and Corliss, C. (2020) *Good Practice In Youth Violence Prevention: A Mapping And Horizon Scanning Review* Ar gael yn: [Darllenwyd Gorffennaf 2024]

McCluskey, G. G., Lloyd, G., Riddell, S., Weedon, E., & Fordyce, M. (2013). *Evaluation of Education Provision for Children and Young People Educated Outside the School Setting: Final report*. University of Edinburgh. Ar gael yn: http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/130624-evaluation-education-provision-children-young-people-educated-outside-school-setting-en.pdf [Darllenwyd Mehefin 2024]

Moon, N., Small, L., and Cambridge, M (2010) Youth Taskforce Study Of Perceptions In Youth Crime Action Plan Areas. Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7b6cd5e5274a319e77f354/DFE-RR008.pdf [Darllenwyd Mai 2024]

Marmot, M., Goldblatt, P., Allen, J. (2012) *Fair Society, Healthy Lives: The Marmot Review* Ar gael yn: https://www.instituteofhealthequity.org/resources-reports/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review [Darllenwyd Mai 2024]

McLean, A. (2024). 'Disadvantaged students.' In Educational Collateral Damage. Bristol: UK: Policy Press.

Moore, G., Anthony, R., Angel, L. et al. Mental health and life satisfaction among 10–11-year-olds in Wales, before and one year after onset of the COVID-19 pandemic. BMC Public Health 22, 379 (2022). https://doi.org/10.1186/s12889-022-12752-6

Munn, Z., Peters, M.D.J., Stern, C. Tufanaru, C., McArthur, A., & Aromataris, E. (2018). Systematic review or scoping review? Guidance for authors when choosing between a systematic or scoping review approach. *BMC Medical Research Methodology* 18, 143-. https://doi.org/10.1186/s12874-018-0611-x

National Youth Council of Ireland (2012). *Assessment of the Economic Value of Youth Work in Ireland*. Ar gael yn: https://www.youth.ie/wp-content/uploads/2019/01/Economic-Beneifit-Youthwork-2012.pdf [Darllenwyd Ebrill 2024]

National Youth Agency (2023) *Better Together: Youth Work With Schools.* Ar-lein. Ar gael yn : https://3b8d1f91d5.nxcli.io/wp-content/uploads/2024/02/NYA_Publications-2023_Youth-Work-With-Schools_pdf_for_upload_REV-1-1.pdf [Darllenwyd Awst 2024].

Nicoletti, A. (2023). Human Costs and Lost Potential: The real cost of youth homelessness. Centre Point. [Darllenwyd Mai 2024].

Office for Budget Responsibility (2015) Revised assumption for the long-run wedge between RPI and CPI inflation. Ar-lein. Ar gael yn: https://obr.uk/box/revised-assumption-for-the-long-run-wedge-between-rpi-and-cpi-inflation/. [Darllenwyd Mehefin 2024].

Office for National Statistics (ONS) (2018) *Loneliness - What characteristics and circumstances are associated with feeling lonely?* Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/articles/lonelinesswhatcharacteristicsandcircumstancesareassociatedwithfeelinglonely/2018-04-10 [Darllenwyd Mai 2024]

Office for National Statistics (ONS) (2022) *Conceptions in England and Wales: 2020* Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/conceptionandfertilityrates/bulletins/conceptionstatistics/2020. [Darllenwyd Ebrill 2024]

Office for National Statistics (ONS) (2024) *Crime in England and Wales: year ending March 2024* Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingmarch2024#knife-or-sharp-instrument-offences [Darllenwyd Awst 2024]

Office for National Statistics (ONS) (2023) “Hidden” homelessness in the UK: evidence review March 2023 Ar gael yn "Hidden" homelessness in the UK: evidence review - Office for National Statistics (ons.gov.uk) [Darllenwyd Gorffennaf 2024]

Page N., Angel, L., Ogada, E., Young H., Murphy S. (2023) Student Health and Wellbeing in Wales: Report of the 2021/22 Health Behaviour in School-aged Children Survey and School Health Research Network Student Health and Wellbeing Survey. Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, DG

Perez, S. (2024). Youth work and homelessness: An Introduction. Commissioned by Counsel for Europe from FEANTSA (www.feantsa.org).

Piliavin, J.A. and Siegl, E., 2007. Health benefits of volunteering in the Wisconsin longitudinal study. *Journal of health and social behaviour*, 48(4), pp.450-464.

PwC (2024) *The Youth Employment Index 2024: Helping Young People To Make The Most of the Green Transition* Ar gael yn: https://www.pwc.co.uk/services/economics/insights/youth-employment-index.html [Darllenwyd Ebrill 2024]

Pollock, D. Tricco, A.Peters, M.D.J. McInerney, P.A. Khalil, H. Godfrey, C.M. Alexander, L. A. & Munn, Z. (2022). Methodological quality, guidance, and tools in scoping reviews: A scoping review protocol. JBI Evidence Synthesis 20(4). 1098-1105. doi: 10.11124/JBIES-20-00570.

Ritchie, D. and Ord, J. (2017) The experience of open access youth work: the voice of young people, Journal of Youth Studies, 20(3) 269-282, Ar gael yn: https://doi.org/10.1080/13676261.2016.1212162 [Darllenwyd Gorffennaf 2024]

Robbins, M., Welton, N., Williams, D., Leigh, R., Cook, L., O'Connor, D., and Drury, A. *Youth Work Funding Review: Phase 2*. Ar gael yn: https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/2957/1/Phase%202_report_Final_%20Main__Report_.pdf [Darllenwyd Mehefin 2024]

Ryan Culleton, L. (2021). Youth work and mental health: Exploring the impact youth work can make on young peoples' happiness and wellbeing. DHealth Dissertation.

Ryan Culleton, L., & Robbins, M. (2022). Measuring outcomes in youth work: The efficacy of positive psychology*. Youth Voice Journal*, 64-81.

SQW (2023) *Youth provision and life outcomes: study of longitudinal research* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/youth-provision-and-life-outcomes-research [Darllenwyd Mai 2024]

SQW (2023) *Youth provision and life outcomes: A Study of the Local Impact of Youth Clubs* Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/youth-provision-and-life-outcomes-research [Darllenwyd Mai 2024]

Smith, N. (2020) *Securing a brighter future: The role of youth services in tackling knife crime*. All Party Parliamentary Group on Knife Crime & Violence Reduction.
Scottish Government (2022) *Life at age 14: initial findings from the Growing Up in Scotland study* Edinburgh: Scottish Government

The Prince's Trust (2024) *The Prince's Trust NatWest Youth Index 2024 Ar gael yn*: https://assets.ctfassets.net/qq0roodynp09/1dwzhtDnn0c2fMyH7AGZTC/d7466a75712c8333545d79ebb6e0880e/DSN6204_Princes_Trust_Youth_Index_2024_Final.pdf [Darllenwyd Mai 2024]

TheyWorkFor you (2024) *Misuse of Drugs (Ar-lein).* Ar gael yn: https://www.theyworkforyou.com/senedd/?id=2024-02-07.2.564590. [Darllenwyd Mai 2024].

Toro, P. A., Dworsky, A., & Fowler, P. J. (2007). Homeless youth in the United States: Recent research findings and intervention approaches. In *National symposium on homelessness research* [Darllenwyd Mehefin 2024].

UK Youth (2021) *EmpowerHER report 2018- 2021* Ar gael yn: https://www.ukyouth.org/wp-content/uploads/2021/11/EmpowHer-final-report-.pdf [Darllenwyd Mai 2024]

Swyddfa Archwilio Cymru (2019). The Well-being of Young People: Youth homelessness. [Darllenwyd Mai 2024].

*Well-being of Future Generations (Wales) Act* (2015) Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents [Darllenwyd Mai 2024]

Welsh Audit Office (2019). The well-being of young people: Youth homelessness. Cardiff, www. audit.wales.

Llywodraeth Cymru (2011). *Assessing the costs to the NHS associated with alcohol and obesity in Wales*. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-08/alcoholmisuseandobesityreporten_0.pdf. [Darllenwyd Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru (2020). Volunteering (National Survey for Wales) April 2019 to March 2020. Ar gael yn: https://www.gov.wales/volunteering-national-survey-wales-April-2019-march-2020-html#:~:text=Age,27%25%20in%202019%2D20. [Darllenwyd: Mai 2024].

Llywodraeth Cymru (2021). Ending Homelessness in Wales: A high-level action plan 2021-2026 [Darllenwyd: Mai 2024].
Llywodraeth Cymru (2021). Household Estimates: mid 2020 Ar gael yn: https://www.gov.wales/household-estimates-mid-2020-html [Darllenwyd: Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru (2022a) *Youth Engagement and Progression Framework: Overview*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.wales/youth-engagement-and-progression-framework-overview [Darllenwyd: Mai 2024]

Llywodraeth Cymru (2022b) *National indicators and national milestones for Wales* Ar gael yn: https://www.gov.wales/well-being-future-generations-national-indicators-2022 [Darllenwyd Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru. (2023a). *Examination results: September 2022 to August 2023 (provisional)* Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2024/6/4/1717669086/examination-results-september-2022-august-2023-provisional.pdf [Darllenwyd Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru. (2023b). *Pupils educated other that at school: September 2022 to August 2023* [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/pdf-versions/2023/9/3/1695198631/pupils-educated-other-school-september-2022-august-2023.pdf [Darllenwyd Mai 2024]

Llywodraeth Cymru. (2023). Homelessness in Wales 2022-23 [Ar-lein]. Ar gael yn https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2023-08/homelessness-April-2022-march-2023-603.pdf [Darllenwyd Mai 2024]

Llywodraeth Cymru. (2023). *Participation of young people in education and the labour market: 2021 and 2022 (provisional*). [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.gov.wales/participation-young-people-education-and-labour-market-2021-and-2022-provisional-html [Darllenwyd Mehefin 2024].

Llywodraeth Cymru (2024) *NHS expenditure programme budgets: Ebrill 2022 to March 2023 [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.wales/nhs-expenditure-programme-budgets-april-2022-march-2023-html#:~:text=NHS%20Wales%20Executive-,NHS%20expenditure%20by%20budget%20category%20and%20year%20on%20StatsWales,million)%20of%20all%20NHS%20expenditure.* [Darllenwyd Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru (2024a) *Young people not in education, employment or training (NEET): Gorffennaf 2022 to Mehefin 2023*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.wales/young-people-not-education-employment-or-training-neet-July-2022-June-2023 [Darllenwyd Mehefin 2024]

Llywodraeth Cymru (2024b) *Child Poverty Strategy for Wales 2024* Ar gael yn: https://www.gov.wales/child-poverty-strategy-wales-2024-html [Darllenwyd Gorffennaf 2024]

Williams, E. (2023) Policing the Crisis in the 21st Century; the making of “knife crime youths” in Britain *Crime Law Soc Change*. Ar gael yn: https://doi.org/10.1007/s10611-023-10089-8 [Darllenwyd Mai 2024]

World Health Organisation. (1948). *Constitution of the World Health Organisation.* Geneva, Switzerland: WHO. https://www.who.int/governance/eb/who_constitution_en.pdf.

Youth Gov (2020) *Volunteerism*. Ar gael yn: https://youth.gov/youth-topics/volunteerism. [Darllenwyd Mehefin 2024]

# 7. Atodiad: Vignettes Ansoddol o Grwpiau Ffocws

**Vignettes o grwpiau ffocws, pobl ifanc**

Cytunwyd ar bum prosiect gwaith ieuenctid gwahanol ar gyfer cynnal grwpiau ffocws gyda phobl ifanc, ac roedd blaenoriaeth pob prosiect yn un o'r meysydd effaith economaidd allweddol a gytunwyd yn ffocws ar gyfer yr astudiaeth hon:

1. Diogelwch cymunedol
2. Addysg a chyflogaeth
3. Ymglymiad cymunedol a gwirfoddoli
4. Digartrefedd
5. Iechyd, iechyd meddwl emosiynol a llesiant

Nod y grwpiau ffocws, fel y nodir yn yr adran ar fethodoleg, oedd dangos potensial gwaith ieuenctid yn y meysydd effaith economaidd a gytunwyd. Nid oedd yn fwriad iddynt fod yn gynrychioliadol; maent yn enghreifftiau arfer da o sut all gwaith ieuenctid gefnogi a galluogi deilliannau cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc.

**1. Diogelwch cymunedol**

***Ffocws***

Buddion gwaith ieuenctid wrth gefnogi diogelwch cymunedol.

***Rhagarweiniad***

Mae'r grŵp ffocws yn dangos y dystiolaeth o grŵp ffocws gyda naw person ifanc o brosiect ieuenctid cenedlaethol yn y sector gwirfoddol. Cynhwysir safbwyntiau'r bobl ifanc ynghyd â thystiolaeth o ddata cyhoeddiedig ar lesiant ac iechyd emosiynol pobl ifanc. Mae'n amlinellu enghreifftiau o fuddion dull gwaith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc yn holistaidd trwy eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd i dderbyn cefnogaeth bersonol, cymdeithasol ac addysgol gyda phrosiect sydd wedi ymrwymo i "hyrwyddo'r hawl i ddiogelwch, cydraddoldeb, a chyfiawnder i bob person ifanc". Gweithio ledled Cymru i hyrwyddo "Cymru heb drais" gan gydweithio gyda miloedd o bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol i greu fframwaith ar gyfer creu "newid systemig a rhoi llais i bobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau".

***Cyd-destunau***

Mae'r mudiad ieuenctid hwn yn y sector gwirfoddol yn gweithio'n "adferol trwy ddulliau cyfryngol a chreadigol, gan gynnig atebion lleol sy'n ymgysylltu ac ymrymuso unigolion gyda'r sgiliau a'r hunan-barch i lwyddo a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas Gymreig". Mae'r mudiad yn gyfrifol am reoli prosiectau a chydlynu rhaglen ar draws Cymru sy'n cynnwys "rhwydaith o bobl ifanc sy'n ceisio creu newid cadarnhaol yn eu cymunedau trwy ymchwil

blaengar a gweithredu rhagweithiol” sydd wedi ymrwymo i wreiddio “diwylliant o atal trais trwy ddulliau a rennir gan y gymdeithas gyfan”. Cenhadaeth y prosiect, sy’n gweithio ledled Cymru, yw “ymrymuso pobl ifanc, a grwpiau tangynrychioledig yn enwedig, sydd wedi cael profiad o’r system cyfiawnder troseddol a/neu wedi bod mewn gofal, trwy roi llais iddynt a’u cefnogi i ddatblygu eu diddordebau a’u doniau”. Mae’r rhaglen yn anelu at “fynd i’r afael â materion o bwys yn ein cymdeithas megis trais ymhlith pobl ifanc a’r pethau sy’n ei achosi, gan gynnwys iechyd meddwl, rhywioldeb, hil, a rhywedd.” Mae’r bobl ifanc sy’n aelodau o dîm staff y prosiect yn cynnal gwahanol fathau o ymchwil i “hoelio sylw ar brofiadau pobl ifanc o drais a chamdriniaeth, cyn defnyddio eu canfyddiadau i lunio atebion ymarferol sy’n helpu llywio polisi, rhaglenni, a mentrau er mwyn gwneud ein cymunedau yn iachach a mwy diogel”. Mae symbylwyr newid yn “cydweithio gydag ymchwilwyr cymheiriaid sydd â dealltwriaeth ddofn o’r heriau a materion y mae eu cymunedau yn eu hwynebu. Mae’r cydweithio hwn yn eu galluogi i sicrhau bod prosiectau a mentrau a ddatblygir yn berthnasol, effeithiol, a chynaliadwy, gyda’r nod o danio gweithredu cymdeithasol a hyrwyddo newid cadarnhaol yng Nghymru”. Mae ethos y prosiect yn “hyrwyddo meddylfryd holistaidd, system gyfan i fynd i’r afael â materion cymhleth, strwythurol, ac mae’n rhoi sylw i anghydraddoldeb strwythurol ynghyd â hyrwyddo perthnasoedd iachus a normau strwythurol di-drais, yn ogystal ag adeiladu gwytnwch unigolion ac ymateb i’w hanghenion, cwestiynu beirniadol a defnyddio ymchwil i ddeall achosion trais a strategaethau effeithiol ar gyfer atal trais…wedi’u gwreiddio ym mhrofiadau bywyd plant a phobl ifanc, a gweithio gyda nhw i greu’r atebion”.

### *Themâu*

Nododd naw person ifanc 16-26* oed y prif fuddion a gawsant o ymgysylltu â gwaith ieuenctid i’w cefnogi gyda’u datblygiad personol ond hefyd i gael effaith uniongyrchol ar brofiad bywyd pobl ifanc ledled Cymru ar lefelau lleol, cenedlaethol, gweithredol a systemig. Roedd y bobl ifanc yn y grŵp ffocws hwn yn wirfoddolwyr ac yn ymchwilwyr cymheiriaid am dâl, ac maent felly’n cymryd rhan yn y prosiect ac yn aelodau o’r tîm

### *Parch, diogelwch a pherthyn*

Ar gyfer yr holl bobl ifanc oedd yn rhan o’r rhaglen atal trais a gweithredu cymdeithasol cadarnhaol gwaith ieuenctid sector gwirfoddol hon, un o’r prif themâu oedd ymdeimlad cryf o barch ac o berthyn:

> YP2: *“ Gadewais addysg a dod i [Enw]…..rwyf wedi bod ar [y prosiect] erbyn hyn am, tua, 3 blynedd, ie, tair blynedd. Pan ddechreuais i, fel, roedd fy ngorbryder ymhob man a phethau fel, fyddwn i ddim yn siarad ag oedolion, fyddwn i ddim yn siarad â phobl eraill yr un oed â fi chi’n gwybod, byddwn yn codi fy llaw i ofyn am gael mynd i’r tŷ bach yn y gwaith. Ac erbyn hyn does dim taw arna i….rydw i’n meddwl am fel ymuno â’r [prosiect] ac mae pawb sydd o’ch cwmpas yn gwneud gwaith ieuenctid ac yn gweithio gyda phobl ifanc ac mae gen i’r syniad yna o ymgysylltu. Felly…er nad oeddwn i ond yn 18 ar y pryd pan ddechreuais i, doedd neb yn fy nhrin i fel plentyn er bod y bobl yma bron yn eu 30au chi’n gwybod a phethau fel ‘na. Roeddwn yn cael fy nhrin yn gyfartal….yn yr ysgol mae ganddoch chi’r deinamig grym yna lle mae pobl yn siarad i lawr atoch chi, ond yn y sefyllfa gwaith yna fel person ifanc yn siarad â’r oedolion hyn, roedden ni ar yr un lefel, ac fe helpodd hynny fi i fagu hyder o hynny ymlaen… ond mae wedi gwneud imi allu, fel ymrymuso fy hun yn ogystal â phobl eraill oherwydd dydw i ddim yn canolbwyntio arnaf fi fy hun. Rydw i’n canolbwyntio ar bobl eraill yn fy*

*ystafell hefyd. Felly rydw i'n gallu ymrymuso mwy o bobl ac nid fi fy hun yn unig. A dyna beth rwyf wedi'i ddysgu ar hyd y daith. O fy mhrofiad i yno.*

*YP3: " rwy'n meddwl am ymuno â [enw'r sefydliad] fel [swydd] dydw i erioed wedi teimlo'n rhan o deulu go iawn, amgylchedd gwaith gwirioneddol braf, ydw rydw i wedi gweithio mewn siopau elusen plant a does neb wedi fy nhrin gyda chymaint o fel, O, ie, wrth gwrs, . Rwyt ti fel, ti'n gwybod, rwyt ti'n rhan o'r grŵp. Dydw i erioed wedi teimlo fel mod i, fel, yn rhan o grŵp….."*

YP6: "*Roeddwn wastad yn wahanol ac yn teimlo ar ben fy hun. Felly eto roedd ymuno â [enw'r sefydliad] a chyfarfod pobl a gwybod fod yna bobl allan yn fanna sy'n mwynhau'r un pethau â chi ac mae yna bobl allan yn fanna sydd hefyd yn gwneud ichi deimlo ei bod yn iawn i fod yn chi eich hun…Welais i erioed y tîm yn trin unrhyw un yn wahanol oherwydd y ffordd maen nhw'n edrych neu'r ffordd maen nhw'n siarad neu'r pethau maen nhw'n eu hoffi neu bethau gwahanol fel 'na. Felly, rydw i'n hoffi sut mae'r tîm yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel a hyderus a bod yn nhw eu hunain a dydyn nhw ddim yn ynysu pobl".*

***Cynhwysiant, amrywiaeth, a thegwch***

Roedd yn amlwg trwy gydol y grŵp ffocws fod amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'r ffordd yr oedd y prosiect yn cael ei gyflwyno. Roedd natur amrywiol y tîm staff yn cefnogi ymgysylltu empathetig a chynhwysol gyda phobl ifanc mewn nifer o leoliadau gwahanol ledled Cymru a chafodd ei gydnabod gan "nifer o wobrau ". Dywedodd pobl ifanc:

YP4*: "Hoffwn ychwanegu hefyd, mod i wedi ymuno yn y pendraw ym mis Tachwedd. Roedd gen i syniad gweddol beth i'w ddisgwyl oherwydd yn barod, fel, roeddwn i'n gwybod yn barod, roeddwn i'n disgwyl i bobl fy ngweld fel, o, Mwslim, maen nhw'n mynd i ofyn, wel, beth yw dy enw, o ble wyt ti'n dod? Fel, fe fydden nhw'n gweld stereoteip ohona i yn hytrach na gweld pwy ydw i, ond cafodd y disgwyliad yna ei chwythu allan o'r ffenestr, ac fe welson nhw am yr hyn ydw i….ac wedyn roeddwn i fel, whoa a doedd ganddyn nhw ddim un o'r rhagdybiaethau hynny amdanoch chi ….ac, wel, roeddwn wedi rhyfeddu, gallwn fod wedi llefain yn llythrennol, oherwydd, fel, beth yw'r ots….. Gwnaeth storïau pobl eraill, fy mhrofiad o'r flwyddyn honno, o ddifrif, fe wnaethon nhw ehangu fy ngorwelion a gwneud imi sylweddoli y mathau o brofiadau y mae pobl eraill yn eu cael, doeddwn i byth yn gwybod fod cymaint o bobl yn cael eu stopio a'u harchwilio,…pobl yn dweud wrtha i yn y cyfweliadau a stwff am ymosodiadau rhywiol ac roedd, o ddifrif, yn dorcalonnus ei glywed, mae'n ehangu eich gorwelion oherwydd dyma beth mae pobl eraill yn mynd trwyddo, rydych yn cydymdeimlo ac, wel, mae'n eich gwneud yn fwy empathetig tuag atynt."*

*YP3: "Dydw i erioed wedi teimlo mod i'n rhan o rywbeth, fel, grŵp sy'n rhoi profiadau byd a bywyd go iawn, fel hyn o'r blaen, doeddwn i erioed wedi bod i ddigwyddiad pride. Felly, wel, rydw i wedi cael cymaint o gyfleoedd anhygoel. Rydw i wedi cyfarfod cymaint o bobl anhygoel ac wedi dysgu am gymaint o safbwyntiau gwahanol na fyddwn i byth wedi dod i wybod amdanynt oni bai fy mod wedi ymuno â [enw'r sefydliad]…… mae hwn yn lle sy'n dathlu amrywiaeth ac sy'n gwneud i bobl deimlo'n ddiogel i siarad am eu problemau, a chael safbwyntiau gwahanol gan bobl sy'n dod o bob math o*

*gefndiroedd, a diwylliannau gwahanol, sy'n teimlo pethau gwahanol, credu mewn pethau gwahanol ac ie, sydd yn dathlu'r amrywiaeth yna."*

*YP9: "…maen nhw wedi gallu fel dod â mwy o bobl ifanc ymlaen pan maen nhw'n rhannu eu profiadau a'u lleisiau. Mae ganddon ni gymaint o bobl ifanc…i uniaethu â nhw mewn, fel, wel, pob blwch rhywedd a phob math o rywioldeb, mae ganddon ni bawb sy'n cyflwyno eu hunain a siarad am y profiad oherwydd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gweld gan fod yna bobl ar y tîm sy'n eu gwahodd nhw i fewn a gadael iddyn nhw fod yn nhw eu hunain".*

*YP2: "Ac rwyn credu fod cael casgliad mor amrywiol o gymeriadau, dyna'r ffordd orau y galla i ddisgrifio bod yma. Mae pawb yn unigryw iawn mewn ffordd dda, rwyn credu ei fod yn dda iawn ac mae'n rhoi hwb i'n hyder ni fel gweithwyr, fel gweithwyr, fel ymchwilwyr cymheiraid, fel [rôl yn y sefydliad] ond rwyn credu ei fod hefyd yn ysbrydoli'r bobl ifanc sy'n dod aton ni neu yr ydyn ni'n mynd atyn nhw gan eu bod yn gweld ein bod wedi gwneud ymdrech i gynnwys pawb yn ein gweithlu".*

***Addysg & Hyfforddiant***

Cynhwyswyd ystod eang o hyfforddiant achredig a datblygu proffesiynol parhaus yng nghynllun, rheolaeth a datblygiad y prosiect, ac roedd hyn yn sicrhau y gallai pobl ifanc oedd wedi cael profiadau heriol o addysg ffurfiol yn aml elwa o "ail gyfle" [YP 2]:

YP1: *"Chefais i ddim amser da yn yr ysgol chwaith. Gadewais addysg prif ffrwd ym mlwyddyn 10…. doedd e ddim yn gweithio, nid oherwydd mod i'n cael fy mwlïo nac unrhyw beth felly, yr addysg prif ffrwd oedd e, doedd y system ei hun ddim yn gweithio ac fe gyrhaeddodd y pwynt o fywyd neu marwolaeth, os na fyddwn i'n gadael. Byddai'n dda pe bawn nhw wedi gwneud rhywbeth yn gynt, oherwydd byddai wedi osgoi llawer o helynt ac ati, ond maen nhw'n dweud na allen nhw. …. doedd gen i mo'r graddau iawn fel coleg a stwff oherwydd fy iechyd meddwl, a dyma fi'n mynd i [enw'r prosiect] i gael fy addysg, cyn imi ddechrau gweithio yma, felly roeddwn yn fyfyriwr yma am tua blwyddyn…. Maen nhw rhoi ail gyfle ichi, a dechrau o'r dechrau hefyd gan eich bod wedi cael, fel, roeddwn wedi methu fy TGAU felly doeddwn i ddim yn gallu cael lle yn y cwrs roeddwn i eisiau'i wneud, ond cynigiodd [enw'r sefydliad] BTEC lefel imi i gychwyn ar y llwybr i'r cyfnod nesaf yn fy mywyd yr oeddwn eisiau'i wneud felly o gofio beth welais i, roedd yn rhoi rhyw fath o ail gyfle i bobl ifanc i roi eu bywydau yn ôl ar y trywydd iawn.."*

YP3: *"mae wedi rhoi ymdeimlad cwbl newydd o bwrpas imi, ymdeimlad cwbl newydd o fyw a…mae cymaint, cymaint o fy ffrindiau wedi bod fel, waw, mae beth rwyt ti'n ei wneud yn anhygoel ac allai i ddim disgrifio pa mor ddylanwadol fu ymuno â'r grŵp hwn ar fy nghyflwr meddyliol hefyd, oherwydd doeddwn i erioed wedi teimlo fod gen i ymdeimlad iawn o bwrpas. Hynny yw, fe wnes i radd yr oeddwn yn ei chasáu a doeddwn i erioed wedi teimlo mod i'n rhan o fy mhrifysgol a .... doeddwn i erioed wedi teimlo mod i fel yn rhan o'r gymuned, a chyn gynted ag yr ymunais â [enw'r sefydliad] roeddwn yn teimlo'n iawn, erbyn hyn rwyn teimlo mai yma y dylwn fod. Mae fel, ti'n gwybod, fe alla i wneud hwn yn gartref. Fe alla i wneud hwn yn lle y galla i aros ynddo. "*

*YP9: "mae'n fwy na datblygu o ran eu datblygiad proffesiynol, mae'n ymwneud â datblygiad cyffredinol y person, fel dywedodd [enw] ei bod wedi llefain gan ei bod yn dysgu cymaint am ei hunan. Mae hynny, fel, yn anhygoel., dod i'r gwaith a gallu cael y math yna o ofod".*

*YP7: [mae pawb yn cael] "y cyfle i gael eu hyfforddi yn yr hyn wnaethon ni, fe wnaethon ni hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o hunan-laddiad, rydyn ni wedi gwneud hyfforddiant cymorth cyntaf. Yna fe fydd 'na hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol sydd fel yn edrych yn ddyfnach ar fraint a hil…. Bod yn ddiogel ar-lein a sut i wneud yn siwr nad yw pobl ifanc yn cael eu hecsploetio ar-lein a phethau felly. Mae yna hefyd waith ieuenctid digidol, felly sut i fod yn ddiogel ar-lein ac eto mae hyn yn seiliedig ar y llwyfannau y gall pobl ifanc uniaethu â nhw ac rydyn ni wedi gwneud pethau felly hefyd. Rydyn ni wedi cael cymaint o fathau gwahanol o hyfforddiant ac ie, rydyn ni'n diweddaru popeth drwy'r amser".*

***Llais pobl ifanc a'u hymrymuso***

Roedd sicrhau bod gan bobl ifanc lais yn greiddiol i'r prosiect ac yn amlwg o safbwynt y bobl ifanc sydd oll yn mynd ati i ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru er mwyn creu newidiadau cymdeithasol cadarnhaol a gwneud arweinyddion yn atebol, fel y dywedodd un person a gymerodd ran:

YP9: "*mae ganddon ni un person ifanc yn yr ystafell hon sydd wedi herio person mewn swydd uchel iawn mewn cyfarfod o'r bwrdd, [enw'r person ifanc] a gyfeiriodd at lwyth o bwyntiau oedd yn anghywir gyda'r llywodraethu a sut roedd pobl ifanc yn cael eu camdrin… ac mae'n anferth o beth i rywun 17 oed eistedd yn fanna a dweud…..dyma beth nad ydych chi'n ei wneud. Mae hynny'n enfawr i rywun, fel, sy'n rhedeg, ti'n gwybod, sefydliad [i gael eu herio] maen nhw fel o, rydyn ni'n gwneud hyn a doedden nhw ddim yn gallu dangos y dystiolaeth.. roedden ni wedi creu'r canllaw strategaeth yma ar gyfer gweithwyr proffesiynol, ac mae rhai heddluoedd yn ei ddefnyddio, gweithwyr ieuenctid, sefydliadau, athrawon ac mae'n llythrennol yn 19 o strategaethau ar sut i fynd ati i ymgysylltu gyda phobl ifanc. Mae'n mynd yr holl ffordd o, eich cyfarfod cyntaf gyda nhw ac ymlaen i'r un olaf un…..ac mae ffyrdd gwahanol o ymgysylltu a'r holl bethau, fel chi'n gwybod, mae pobl ifanc y dyddiau 'ma yn gwybod llawer mwy nac y byddech chi'n disgwyl iddyn nhw wneud".*

YP7: *"dechreuodd dau berson ifanc yn [aelodau'r tîm] oes yn ôl ar ddechrau amser, mae'n teimlo felly, ond roedden nhw yno fel o'r cychwyn cyntaf, fe welson nhw'r cynnydd yna ac roedden nhw fel, rydw i eisiau gwneud hyn ac erbyn hyn maen nhw'n dod mewn fel, mae gen i hyn, fel maen nhw wedi gallu fel dod â mwy o bobl ifanc yn eu blaenau pan maen nhw'n rhannu eu profiadau a'u lleisiau. Mae ganddon ni gymaint o bobl ifanc …. Ond maen nhw wedi gadael i bobl ifanc eraill i fel cael y gofod hwnnw. Rydyn ni wedi ychwanegu pobl ifanc sydd ag awtistiaeth a dydyn nhw ddim yn siarad. Rydyn ni wedi cael cyfweliad gyda pherson ifanc oedd yn aneiriol ac fe siaradon [nhw] am awr oherwydd eu bod [nhw'n] teimlo'n gyfforddus i wneud ac rydw i'n credu fod hynny'n anhygoel. "*

***Lleihau trais***

Un o’r prif linynnau gwaith yw atal trais ac fe gefnogir hynny trwy ddatblygu:

> *YP9: ”Yng ngham cyntaf y [enw’r prosiect] fe wnaethon ni greu’r fframwaith ac oherwydd hynny rydyn ni wedi’i wneud yn llyfr a’i ddosbarthu i bawb fel ar draws Cymru ……pob mathau o leoedd yng Nghymru. Erbyn hyn rydyn ni’n edrych ar fel, o, [ardal] heb drais, [ardal] heb drais, [ardal] heb drais…..felly cafodd ei gyd-gynhyrchu rhwng pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ac erbyn hyn mae ar gael yn yr holl rannau gwahanol o Gymru, pob un o’r 22 a sefydliadau sy’n gweithio gyda phobl ifanc a phobl ifanc ym myd trais ac mae rhai canolfannau ieuenctid, clybiau ieuenctid yn ei ddefnyddio hefyd, maen nhw’n gallu defnyddio’r fframwaith yma erbyn hyn…rydych chi’n deall beth mae’r bobl ifanc yn mynd trwyddo ac fe allwch chi ddeall beth maen nhw’n ei weld, sut maen nhw’n teimlo, yn gallu gweithio gyda nhw a dod i’w deall a gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau’r bobl ifanc a sut allan nhw helpu creu newid yn eu hardaloedd a’u cymunedau nhw ac yng Nghymru’n gyffredinol”.*

> *YP2:* “*Mae’n frawychus nad oes digon o adnoddau ar gael y gall pobl ifanc droi atyn nhw, ac os gwelwch chi gyda’i gilydd, chi’n gwybod, rydyn ni wedi cael sgyrsiau gyda gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc a phawb ar yr un dudalen oherwydd rydyn ni i gyd yn gwybod fod pobl yn stereoteipio pobl ifanc sydd yn mynd o le i le oherwydd ei bod yn edrych fel pe baen nhw’n creu helynt pan nad ydyn nhw. Maen nhw allan yn gwneud rhywbeth gan nad oes unman arall iddyn nhw fynd a’r peth yw, rydw i’n credu hefyd fod y rôl hon yn gymaint o agoriad llygad oherwydd yn naturiol fe fydden ni i gyd yn mynd i dreulio amser gyda’n ffrindiau….. wedyn mae’n rhaid ichi feddwl faint o’r bobl ifanc ifanc hynny sy’n cerdded o gwmpas y dref, y tebyg yw na fyddan nhw’n gallu mynd adref tan tua 11:00 o’r gloch heno, neu faint ohonyn nhw sydd allan yn y dref, chi’n gwybod, yn bwyta bwyd gyda’u ffrindiau ar y stryd gan mai dyna’r unig bryd maen nhw’n mynd ei gael heno. Mae’n agoriad llygad pan rydych yn ei weld oherwydd rydyn ni’n mynd i grwpiau ieuenctid bob wythnos i fel, gofalu amdanyn nhw neu gweithio gyda nhw ac mae’n debyg mai dyna lle fydd y rhan fwyaf ohonyn nhw’n siarad. Yr unig bryd y gallan nhw fod yn nhw eu hunain…. ond does dal dim arian ar gyfer cymunedau a’r canolfannau cymunedol a beth sy’n mynd ymlaen oherwydd, wel, does dim arian …. a fel y dywedes i, rydyn ni wedi gwneud y gwaith hefyd, fe allwn ni weld dros y 10 mlynedd diwethaf beth sydd wedi digwydd lle mae trais wedi cynyddu, lle mae’r adnoddau ar gyfer pobl ifanc wedi lleihau”.*

***Meddyliau i gloi***

O safbwynt y bobl ifanc roedd gwaith ieuenctid yn cynnig sawl dewis cadarnhaol iddynt oedd yn eu galluogi i ddatblygu’n holistaidd. Roedd prosiectau fel y rhain yn canolbwyntio ar leihau effaith trais ymhlith pobl ifanc ar bob agwedd o ddatblygiad personol cymdeithasol ac emosiynol ac roedd perthnasoedd gwaith ieuenctid yn sail i’r newid cadarnhaol. Dywedodd un aelod o grŵp ffocws:

> YP9: “*o ran y cyfweliadau a gweithio gyda phobl ifanc, mae’n amlwg iawn fod y bobl eraill yr ydyn ni wedi siarad â nhw, yn y chwe wythnos diwethaf rydyn ni wedi gweithio gyda mwy na 90 o bobl ifanc …. dywedodd mwy na hanner ohonyn nhw mai gweithwyr ieuenctid yw’r bobl maen nhw’n teimlo’n ddiogel â nhw. Rydw i’n credu fel sut mae model gwaith ieuenctid Cymru yn gweithio o gymharu â lleoedd eraill oherwydd er yn*

*amlwg fod pawb yn gwybod yn y 10 mlynedd diwethaf, fod canolfannau ieuenctid wedi dioddef, mae trais wedi cynyddu ond pan edrychwch chi ar y bobl sy'n rhan o'r clybiau ieuenctid hyn, rydyn ni wedi bod yn mynd i grŵp ieuenctid [enw], rydyn ni wedi bod yn mynd i… rydyn ni wedi bod yn mynd i'r rhai yn [lle] fel [prosiect ieuenctid], grŵp ieuenctid LHDT ac rydyn ni yn [lle] pan ewch chi i'r lleoedd hyn, rydych chi'n edrych, chi'n edrych ar y grwpiau a hwn yw'r unig le y mae [pobl ifanc] yn mynd iddo ac mae hynny oherwydd y gweithwyr ieuenctid sydd yno…gan eu bod yn teimlo'n ddiogel, mae ganddyn nhw ffrindiau yno. Felly, o ran sut mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn gweithio, rydw i'n credu ei fod yn gweithio ond yn amlwg mae 'na ddiffyg fel arian a phethau".*

## Addysg a chyflogaeth

### *Ffocws*

Gwahoddwyd y grŵp ffocws hwn i fyfyrio ar fanteision gwaith ieuenctid wrth gefnogi ymgysylltu a chadw pobl ifanc a gyfeiriwyd atynt gan ysgolion ac offeryn adnabod yn gynnar yr awdurdod lleol oherwydd y gallent fod mewn perygl o fynd yn NEET. Mae'n ceisio gwella cyflogadwyedd, lleihau'r risg o ddioddef tlodi cymharol cysylltiol, a chefnogi cynhwysiant cymdeithasol i bobl ifanc sydd yn wynebu risg wedi i'w haddysg ffurfiol ddod i ben.

### *Rhagarweiniad*

Mae'r grŵp ffocws yn dangos y dystiolaeth o grŵp ffocws gyda saith person ifanc o brosiect addysg amgen ac ail-integreiddio awdurdod lleol. Cynhwysir safbwyntiau'r bobl ifanc ynghyd â thystiolaeth o adroddiadau prosiect a data a gyhoeddwyd ar bobl ifanc heb fod mewn addysg, gwaith, na hyfforddiant. Mae'n amlinellu enghraifft o fanteision dull gwaith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i wynebu llai o risg o fynd yn NEET trwy gynnig cefnogaeth wedi'i deilwra er mwyn galluogi'r sawl oedd yn cymryd rhan i "leihau'r risg o gael eu heithrio'n barhaol, ail-integreiddio mewn addysg prif ffrwd, cynyddu ymgysylltu a phresenoldeb". Mae'r prosiect yn gweithio'n holistaidd i gynnig mynediad at ddatblygu sgiliau personol, cymdeithasol, ac addysgol, mentora ac ymrymuso er mwyn cefnogi pobl ifanc i ddod yn "hyderus, gwydn ac optimistaidd am y dyfodol, a bod yn fwy abl i reoli perthnasoedd rhyng-bersonol".

### *Cyd-destun*

Prosiect gwaith ieuenctid sy'n ceisio lleihau nifer y bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o fynd yn NEET 'trwy gefnogi pobl ifanc i gymryd mwy o reolaeth ar eu bywydau ac ymgysylltu'n llwyddiannus yn y gymuned a chyflawni eu llawn botensial'.

Mae'r prosiect yn cynnig darpariaeth ar ddau ddiwrnod o'r wythnos sy'n cynnwys cyfres o weithdai addysgol ar bynciau sy'n cynnwys rheoli ymddygiad, cyfathrebu effeithiol, a gwaith tîm ynghyd ag ymweliadau a gweithgareddau addysgiadol sy'n ceisio ymrymuso pobl ifanc, a'u helpu i "gael gafael ar wybodaeth, ennill achrediadau, datblygu sgiliau, gwybodaeth, a dyheadau". Nod y rhaglen yw helpu pobl ifanc i adnabod a dymchwel rhwystrau rhag gallu ymgysylltu, adnabod ac ymwrthod â dylanwadau negyddol a manteisio ar nifer o weithgareddau gwahanol. Hefyd, mae'r bobl ifanc yn derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra er mwyn penderfynu pa feysydd gwaith i'w blaenoriaethu, datblygu cynlluniau dysgu unigol, penderfynu ar nodau, a chynlluniau gweithredu personol. Mae'r prosiect hefyd yn datblygu proffiliau hygyrch ar gyfer pob un o'r bobl ifanc er mwyn addysgu budd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol ar symbyliadau, strategaethau a thechnegau ymdopi priodol ar gyfer yr unigolyn a chefnogaeth gofleidiol a ddarperir gan staff y gwasanaeth ieuenctid gyda'r nos, dros y Sul, ac yn ystod gwyliau ysgol.

### *Themâu*

Fe wnaeth saith person ifanc 12-13 oed nodi'r prif fanteision iddyn nhw o ymgysylltu gyda gwaith ieuenctid er mwyn eu cefnogi i aros ym myd addysg a lleihau eu risg o gael eu heithrio.

#### *Sefydlu ymddiriedaeth a dylanwad trwy berthnasoedd mewn gwaith ieuenctid*

Cyfeiriodd y bobl ifanc at bwysigrwydd y perthnasoedd anragfarnol, ymddiriedgar ag iddynt ffiniau eglur yr oedd ganddynt gyda gweithwyr ieuenctid yn eu parodrwydd i barhau i ymgysylltu ac i dderbyn heriau cefnogol, a arweiniodd at newidiadau pwysig yn eu hymddygiadau. Dywedodd y bobl ifanc:

> YP 1*: "…mae gallu siarad â nhw (gweithwyr ieuenctid) yn eich helpu i ddysgu nad ydych yn sicr ar eich pen eich hun…. maen nhw wir eisiau ein helpu ni."*

> YP 5: *"…Fe alla i ddweud pob un dim wrtho fe….os ddywedwch chi rywbeth cyfrinachol wrth (X) dyw e'n dweud dim byd….os ddywedwch wrth yr athrawon fe wnawn nhw bopeth allan nhw i wneud ichi deimlo'n wael am yr hyn wnaethoch chi ond wnawn nhw ddim gadael ichi siarad. Ond pan rydych chi gyda (X) mae e wir yn gadael ichi siarad ag e."*

> YP 2: *"…fe fyddan nhw (gweithwyr ieuenctid) yn gweiddi arnoch chi os ydych chi'n ddrwg iawn ond maen nhw'n ein deall ni'n fwy na dim……. Mae'r ysgol yn gymaint o straen… mae athrawon yn W******* ond dyw'r rhain ddim. Mae'r athrawon pethau yma (gweithwyr ieuenctid) yn iawn".*

> YP 4: *"fe ddysgodd y [gweithwyr ieuenctid]) fi sut i fel nad yw ymladd a bod yn annifyr yn ôl i rywun yn ffordd dda ac mae'n well bod yn neis iddyn nhw a'u parchu nhw ond os oes rhywun yn fel yn ceisio bod yn gas mae'n well ceisio gadael iddyn nhw fod, mae hyn wedi fy nysgu i gytuno gyda'r athrawon ac ati"*
>
> I
>
> YP 6: *" …nid ysgol yw hyn dyw nhw ddim yn athrawon oherwydd maen nhw'n eich trin chi'n iawn er bod gen i broblem gwylltio ac anableddau ac alla i ddim bod yn berffaith fel y plant eraill a dydw i ddim yn gallu gwneud y gwaith i gyd ond dyw e ddim yn effeithio'r ffordd maen nhw'n eich dysgu chi. Hyd yn oed os ydych chi'n ddrwg ac ati ac mae pethau'n gallu mynd yn anodd ond maen nhw'n fwy pwyllog a dyw nhw (gweithwyr ieuenctid) ddim yn sgrechen atoch chi."*

> Roedd yr ymddiriedaeth yn cynnwys y grŵp yn ogystal â'r tîm o weithwyr ieuenctid ac mae wedi helpu sefydlu rhwydweithiau cymdeithasol yn annibynnol ar y rhaglen a disgrifiodd un person ifanc sut *"Rwy'n ffrindiau gyda phawb, mae ganddon ni (pobl ifanc) snapchat ac rydyn ni'n negeseuo ein gilydd yn y boreau i godi ein gilydd a phethau."* (YP 7).

### *Effaith ar ymddygiad troseddol*

Ar gyfer llawer o'r bobl ifanc arweiniodd cefnogaeth ac ymyriadau gwaith ieuenctid at welliant sylweddol o ran meddwl canlyniadol ac at lai o ymddygiadau gwrth-gymdeithasol a mentrus oedd wedi effeithio arnynt yn unigol ac ar lefelau diogelwch cymunedol a throseddu yn eu gwahanol gymunedau. Dywedodd y bobl ifanc:

YP 1: *"Roedd yr heddlu ar fy ôl i drwy'r amser ar un adeg ond wedyn fe roddais i'r gorau i wneud gyda nhw (pobl yn y gymuned sy'n mynd i drafferth gyda'r Heddlu). Mae e'n (gweithiwr ieuenctid) dweud wrtha i i beidio gwneud pethau drwg ac rydw i'n gwrando arno fe. Ar ddiwedd y ddydd, meddyliwch, ie, fel allen ni fod yn dal i wneud pethau gwirion fel dwyn ceir ac fe ges i nhemtio i wneud beic neu ddau ond fe (gweithiwr ieuenctid) yw fy nylanwadwr".*

YP 3*: "gyda hyn mae wedi gwneud imi dawelu cryn dipyn – mae pawb sydd yma wedi gwneud rhywbeth o'i le a phan maen nhw'n dod yma, maen nhw'n sylweddoli erbyn hyn eu bod eisiau bod yn wahanol."*

YP 2*: "ddim yn hir yn ôl pan roeddwn ni'n arfer bod yn s*** fach dyna lle gwnaethon nhw (gweithwyr ieuenctid) a chrefftau'r dwyrain fy helpu fi….. Fe alla i gadw allan o helynt erbyn hyn."*

YP 4: *" Mae'r [gweithiwr ieuenctid]"…yn ein cadw ni allan o drafferth gyda'r nos hefyd. Fe alla i fynd i fyny i'r fan ac mae'n fy nghadw allan o drafferth."*

YP 6: *"Y tro cyntaf ddes i yma roedd golwg ryfedd arna i, fyddwn ddim yn tynnu fy hwd i lawr, ond erbyn hyn rwy'n mynd i mewn i streets crys-t siorts dim hwd dim byd ac o'r diwedd fe alla i dynnu fy hwd i lawr a cherdded o gwmpas (gan nad ydw i mewn trafferth yn y gymuned mwyach). Fe fyddan nhw (gweithwyr ieuenctid) yn fy atgoffa am y stwff y byddwn i'n eu gwneud. Mae'n rhaid ichi fod yn onest, mae'n rhaid bod fel ie, yn y pendraw bydd pobl (yn y gymuned) yn dweud nad ydych chi wedi newid, ond dydyn nhw ddim yn eich 'nabod yn well na chi'ch hun".*

YP 7: *"Dydw i ddim eisiau bod mewn trafferth mwyach. Rwy'n fachgen da erbyn hyn. Rwy'n ceisio mynd yn ôl i'r ysgol llawn-amser, rydw i wedi rhoi'r gorau i fod yn d******* yn y gymuned yn rhedeg o gwmpas yn dwyn ceir, torri mewn i dai, cicio drysau, rhedeg rhag yr Heddlu, dwyn stwff bod yn wrth-gymdeithasol. Dydw i ddim yn ymddwyn yn wael mwyach".*

### *Gwella presenoldeb ac ail-integreiddio*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc fod gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid wedi'u galluogi i gael gafael ar gefnogaeth oedd wedi gwella eu presenoldeb gryn dipyn ac wedi helpu gydag ail-integreiddio a'r posibilrwydd o fynd yn ôl i'r ysgol y llawn-amser:

YP 4: *[cyn dechrau'r rhaglen] "…ar ddechrau blwyddyn wyth ac rydw i'n hoffi rygbi ac ati ond doeddwn i ddim yn cael gwneud rygbi, Allwn i ddim, roeddwn eisiau ond fydden nhw (yr ysgol) ddim yn gadael imi oherwydd fy ymddygiad. Erbyn hyn rydw i'n cael gwneud rygbi, rydw i'n cael mynd ar deithiau ysgol ac ati ac mae'n dangos imi mod i wedi gwella llwyth. Fe alla i wneud unrhyw weithgareddau rydw i eisiau yn yr ysgol ac rydw i'n ôl yn yr ysgol yn llawn-amser erbyn hyn…"*

YP 2: *“Mae’r ysgol dal yn boen pen, ond rydw i’n dod yma… dydw i ddim wedi bod yn yr ysgol yr wythnos yma ddim yn siwr am wythnos nesaf ond ers imi fod yma (prosiect ieuenctid) dydw i ddim wedi colli unrhyw ddyddiau o gwbl”.*

***Cyfleoedd addysgiadol***

Mae’r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol o bob math sy’n ehangu eu gorwelion, ac rydyn ni’n cefnogi’r bobl ifanc i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth amrywiol ac adeiladu ymdeimlad o gyflawni a meistrolaeth, ac mae’n amlwg fod hynny wedi dylanwadu ar y bobl ifanc, a ddywedodd:

YP 1 *“…maen nhw’n dal i’ch gwthio i gael y gwaith gorau allan ohonoch chi”*

YP 4 *“Bydd y prosiectau rydyn ni’n eu gwneud yn ein helpu ni yn y dyfodol, fel pan wnaethon ni’r beiciau modur a’r mecanwaith ac ati a phan wnaethon ni’r celf, fe wnaeth ein helpu ni i ddysgu y gallwn ni adeiladu stwff a gwneud stwff a dysgu sut i ddefnyddio’r taclau gafael ac offer arall”.*

YP 2: *“Fe aethon ni lawr i’r coleg ac edrych ar geir neis, cael golwg arnyn nhw ac wedyn fe aethon nhw â ni mewn i weithdai lle maen nhw’n trwsio beics ac fe gawson ni dynnu olwyn i ffwrdd …roedd yn wych…”*

YP 3 *“…fe wnaethon ni ddaliwr ffôn yr ydw i’n dal i’w ddefnyddio hyd heddiw, ac mae gen i fy mhlac yn hongian ar y wal”.*

YP 5: *“…mae angen iddo fod yn hirach (y prosiect) oherwydd os byddai’n hirach fe allen ni gael mwy o fudd a mwy o hwyl.”*

YP 6*: “…mae’r dyfodol yn edrych yn dda dyfodol da!”*

***Meddyliau i gloi***

O safbwyntiau’r bobl ifanc, roedd yn amlwg fod methodolegau gwaith ieuenctid wedi’u gwreiddio mewn rhyngweithiadau disgyrsiol yn cynnig llwybr ystyrlon arall iddynt rhag cael eu heithrio o’r ysgol, ac i sawl un, roedd yn eu cefnogi i fynd i’r afael â’u hymwneud cynyddol â’r system cyfiawnder troseddol. Roedd ffordd holistaidd o weithio yn canolbwyntio ar y person i’w helpu i ail-afael yn eu haddysg a chael addysg bersonol, gymdeithasol ac emosiynol effeithiol, a dywedodd un person ifanc,

YP 2 *“Mae wedi newid sut rydw i’n meddwl am stwff, rwyt ti’n sylweddoli eu bod nhw (gweithwyr ieuenctid) o ddifrif yn ceisio eich helpu chi a’ch cadw chi allan o s*** fel, y stwff maen nhw’n ei ddweud, rydych chi’n dweud rhywbeth wrthyn nhw ac maen nhw’n dweud na ddylech chi fod yn gwneud hynny ac rydych chi’n dweud wrthyn nhw eich bod wedi gwneud rhywbeth gwirion ac fe fyddan nhw’n siarad gwybodaeth i mewn ichi. Cyn hyn roeddwn i’n mynd i drafferth ac yn bod yn s*** bach ac yna fe fyddwn i’n*

*dweud ddau fis ar ôl bod yn hwn (prosiect ieuenctid) roeddwn i'n sylweddoli fel dydw i ddim eisiau cael y math yna o fywyd ddim mwy" .*

Ar ddiwedd y grŵp ffocws roedd y bobl ifanc yn gadael ac yn trafod gweithgarwch diwedd tymor ac yn dweud wrth y gweithiwr ieuenctid *"...beth wnawn ni, allwn ni siarad am hyn ar ôl inni fynd am fwyd"* (YP 1), arwydd amlwg fod trafod, parch, ac ymddiriedaeth yn bileri sylfaenol o lwyddiant y prosiect.

**Ymglymiad cymunedol a gwirfoddoli**

***Ffocws***

Manteision gwaith ieuenctid i gefnogi ymgysylltu mewn gweithgarwch cymunedol a gwirfoddoli.

***Rhagarweiniad***

Mae'r grŵp ffocws yn dangos y dystiolaeth a gafwyd oddi wrth bum person ifanc mewn prosiect ieuenctid 'galw heibio' drws agored yn y sector gwirfoddol. Casglwyd safbwyntiau'r bobl ifanc trwy ddefnyddio dulliau cyfranogol, a chymerwyd tystiolaeth ychwanegol o ddata a gyhoeddwyd ar y testun a thrafodaeth gyda rheolydd y ganolfan. Mae'n amlinellu enghraifft o fanteision dull gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a gweithgarwch cymunedol.

***Cyd-destun***

Mae'r ganolfan ieuenctid mewn tref yng Nghymru. Mae ar agor bum niwrnod yr wythnos, ac mae'n gweithio gyda phobl ifanc 8-25 oed. Mae'n ganolfan drws agored lle y gall pobl ifanc alw heibio fel y mynnant, ac mae hefyd yn cynnal nifer o brosiectau wedi'u hariannu gyda phobl ifanc, megis: *"Llythrennedd Digidol, Llythrennedd Ariannol, Coginio, Gardd Hwb Natur, Gwener Pryd am Ddim, grŵp ieuenctid LHDTC+ a grŵp ieuenctid iau – Transitionz".* Trwy ei holl ddarpariaeth mae'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc wneud gwaith gwirfoddol yn y ganolfan ac yn eu cymuned leol. Mae'r ganolfan ieuenctid yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill ymdeimlad o ymrymuso trwy ymgysylltu, yn ogystal â chysylltu'r bobl ifanc gyda'u cymuned leol. Roedd tri o'r nodau yn cynnwys ymgysylltu cymunedol a gwirfoddoli.

> *"Hygrededd a Chyfathrebu*
>
> > *Rhoi llais a hygrededd i bobl ifanc yn y gymuned ehangach".*
>
> *"Cyfranogiad a Chynhwysiant*
>
> > *Galluogi pob person ifanc i chwarae rhan lawn yn eu cymuned".*
>
> *"Codi arian*
>
> > *Rydym yn adeiladu perthnasoedd cryf gyda chyllidwyr trwy gynnal ein henw da, cynnwys pobl ifanc mewn ymdrechion codi arian cymunedol, a chwilio am gyfleoedd codi arian newydd".*

Dywedodd rheolydd y ganolfan:

> *"…fod dros 500 o bobl wedi cymryd rhan mewn prosiectau gwahanol yn y ganolfan ieuenctid yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae o leiaf un o bob tri ohonynt wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch gwirfoddoli…"*

Trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli, mae pobl ifanc yn casglu 'Credydau Amser' ar gyfer gwirfoddoli yn [enw'r prosiect ieuenctid] ac yn y gymuned. Ar gyfer pob awr o wirfoddoli, mae pobl ifanc yn derbyn credyd amser, ac ar ôl cronni digon gellir eu defnyddio

ar gyfer teithiau a gweithgareddau [gydag enw'r prosiect neu ar draws enw sir], Cymru a'r DG ar gyfer gweithgareddau fel bowlio, y ganolfan hamdden, a'r theatr.

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau y mae pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt trwy'r ganolfan ar draws eu prosiectau niferus mae: fforwm ieuenctid, codi sbwriel, creu a gofalu am ardd fwytadwy gymunedol, cyfleoedd glanhau yn yr ardd, garddio yn y ganolfan ac mewn rhandir lleol, gweithio yng Nghaffi'r ganolfan, coginio, glanhau'r traeth a gwirfoddoli mewn mudiadau lleol eraill, e.e. yr Amgueddfa leol. Mae'r sgiliau'n cael eu hystyried yn rhai trosglwyddadwy i'w helpu i mewn i oedolaeth.

Trafododd rheolydd y ganolfan pa mor bwysig oedd gwirfoddoli i bobl ifanc yn eu galluogi i deimlo'n ymrymusedig i gymryd cyfrifoldeb ac ennill credydau amser am eu hamser, ac mae felly'n cael ei weld yn rhan ganolog o'u gwasanaeth gwaith ieuenctid. Dywedodd y rheolydd hefyd fod gwirfoddoli'n gwneud i'r bobl ifanc deimlo'n rhan o'r tîm yn y clwb ieuenctid ac wedi'u cysylltu â'r gymuned ehangach. Dywedodd eu bod yn datblygu coeden wirfoddoli y gall pobl ifanc roi labeli arni i ddangos ym mha feysydd yr hoffent wirfoddoli ymhob sesiwn a chymryd cyfrifoldeb amdanynt.

***Themâu***

***Cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau***

Nododd y bobl ifanc y gweithgareddau y buont yn rhan ohonynt, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

> *"Garddio*
>
> *Codi sbwriel yn y dref*
>
> *Helpu coginio*
>
> *Helpu siopa*
>
> *Gwirfoddoli yn yr amgueddfa leol"*
>
> *Torri lawnt y ganolfan*
>
> *Glanhau*
>
> *Codi arian:  cwisiau, coginio, gwerthiannau nwyddau pob*
>
> *"gwneud 50 o grempog i bobl*
>
> *Adeiladu cyfrifiaduron newydd"*

Wrth sôn am eu gweithgarwch gwirfoddoli dywedodd un person ifanc:

> YP 1; *"Rydw i wedi gwneud fel tipyn o'r stwff gwirfoddol…Rydw i'n credu fod hynny oherwydd mod i wedi bod yma ers oes y deinosoriaid. Felly, falle mod i wedi gwneud tamaid yn fwy na phawb arall, ond rydw i wedi gwneud cryn dipyn o fel y stwff gwerthu cacennau. Rydw i wedi helpu rhedeg y Caffi o bryd i'w gilydd. Rydw i wedi gwneud ambell ddigwyddiad, fel pedwar neu bump ohonyn nhw. Fel coginio ac yna fe wnaethon fel rhyw fath o gaffi, roedd pobl yn bwyta yn yr ardd ac fe helpais i gyda*

*noson Gyri. Fe wnes i hynny hefyd…A hefyd noson 16 +. Fe wnes i hefyd ddechrau helpu gwneud y cyfrifiaduron…"*

### *Buddion a nodwyd gan bobl ifanc*

Soniodd y bobl ifanc eu bod wedi elwa mewn sawl ffordd o gymryd rhan yn y gweithgareddau y soniwyd amdanynt, sy'n dangos fod nifer o sgiliau personol, cymdeithasol a bywyd, a hwyl a sbri hefyd yn amlwg iawn:

> *"Gwneud ffrindiau newydd" "Rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd sy'n llawer hŷn na fi"*
>
> *"Rydw i wedi dod i ymddiried mwy mewn pobl"*
>
> *"Mae gen i sgiliau cymdeithasol newydd"*
>
> *"Gwasanaethu cwsmeriaid"*
>
> *"Cyflawni pethau newydd bob dydd"*
>
> *"Sgiliau bywyd"*
>
> *"Gwybodaeth newydd"*
>
> *"Boddhad"*
>
> *"Hyder"*
>
> *"Rwy'n mwynhau'r credydau amser gan mod i'n hoff o antur a hwyl y galla i wneud gyda nhw"*
>
> *"mae'n fy ngwneud yn hapus"*
>
> *"gallu coginio" "sgiliau coginio newydd"*
>
> *"Darllen"*
>
> *"Cael hwyl"*
>
> *"Chwarae"*
>
> *"Llawen" "Hapus"*

Soniodd un person am y manteision o gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol:

> YP 1: *"Felly, pan rydyn ni'n gwneud y pethau sy'n cynnwys pethau fel arian a gwasanaethu cwsmeriaid, rydw i'n hoffi hynny'n bersonol, mae'n fy helpu gyda beth rydw i'n astudio yn yr ysgol. Mae'n helpu tamaid mwy i gael fel deall sut i drin cwsmer o'r dechrau i'r diwedd ac fel falle y bydd rhai pobl yn gwneud gwaith gwerthu neu rywbeth dydych chi ddim yn gwybod ydych chi? Ac rydw i'n meddwl ei fod yn rhoi bach mwy o hwb i'ch hyder chi os oeddech yn gwybod sut i weithio mewn lle bwyta, chi'n gwybod sut i drin cwsmer heb orfod cael eich hyfforddi, os yw hynny'n gwneud synnwyr. Felly ie…. Rydw i'n credu ei fod yn edrych yn dda ar eich CV os ydych chi'n dweud eich bod wedi gwirfoddoli mewn clwb ieuenctid, 5-6 mlynedd neu am faint bynnag rydw i wedi bod yn ei wneud…".*

Mae'r dyfyniadau canlynol yn cyfeirio at fanteision eraill o safbwynt pobl ifanc:

YP 2: *“Do, fe helpodd fi i wneud ffrindiau, felly mae gwirfoddoli, bod yma, gwirfoddoli a bod yn weithgar yn y gymuned wedi rhoi cyfle imi wneud ffrindiau…”.*

YP 4**: “…***Mae gen i fel 6 credyd amser unwaith ac fe es i fowlio gyda mam”.*

YP 1: *“Yn y bôn beth ddywedes i o’r blaen, dim ond sgiliau yn gyffredinol, ond wedyn mae gen i fwy fel o sgiliau gwasanaethu cwsmeriaid, technegau gwahanol, sgiliau cymdeithasol, oherwydd weithiau rydw i fel ddim yn hyderus iawn yn siarad â phobl… ac wedyn mae ‘na sgiliau coginio pan rydw i wedi bod yn gwneud rhywfaint o stwff.*

***Barnau ar waith ieuenctid a chyllido***

Trafodwyd pwrpas a chyd-destun yr ymchwil yn y grŵp ffocws. Yn ystod y drafodaeth gwnaeth y bobl ifanc nifer o bwyntiau pwysig ynghylch ariannu gwaith ieuenctid a phwysigrwydd gwasanaethau gwaith ieuenctid iddyn nhw:

YP 1: **“***Yn fy marn i fe fyddwn i’n dweud ei bod yn bwysig iawn ariannu clybiau ieuenctid a dylai’r llywodraeth, y rheswm am hyn yw oherwydd bod clwb ieuenctid yn lle y mae pobl ifanc yn mynd i allu gwneud y pethau efallai na fyddent yn gallu eu gwneud yn unrhyw le arall. Nid yn unig hynny ond mae clybiau ieuenctid hefyd yn lle y mae pobl o gefndiroedd cwbl wahanol yn dod at ei gilydd i ddathlu’r gwahaniaethau hynny. I gloi, maen nhw’n haeddu arian gan eu bod yn helpu cymaint o bobl ifanc. Maen nhw’n helpu pobl gydag iechyd meddwl ac maen nhw’n anhygoel yn helpu llawer o bobl ac maen nhw hefyd yn cefnogi pobl sydd wir angen help gyda phethau sy’n digwydd gartref”.*

YP 2: *“Mae hwn yn lle da ac yn hwyl ac rwy’n ei hoffi!”.*

YP 3**:** *“mae gwaith ieuenctid yn rhoi cyfleoedd i blant na fydden nhw byth yn eu cael gartre o bosib…ond nid yw rhai mathau o ariannu ond yn rhoi cyfle i blant o oed arbennig”.*

YP 4: *“mae angen lleoedd a phrosiectau fel hyn gan fod y teithiau a’r bwyd yn dda”..*

YP 5: *“Mae’n dda fod clybiau ieuenctid yn cael eu hariannu oherwydd bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd na fydden nhw erioed wedi’u cael o’r blaen efallai a dysgu sgiliau bywyd pwysig”.*

***Meddyliau i gloi***

O safbwynt y bobl ifanc, mae’n amlwg eu bod wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau gwirfoddoli gwahanol yn y prosiect ieuenctid ac yn y gymuned, oedd yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu ac adnabod sgiliau bywyd yn ogystal â sgiliau personol a chymdeithasol yn unol â nod gwaith ieuenctid a amlinellir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid:

Nod gwaith ieuenctid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n holistaidd, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgiadol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, dylanwad a lle yn y gymdeithas ac i gyflawni eu llawn botensial (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (CL&DS), 2019).

**Digartrefedd**

***Ffocws***

Manteision gwaith ieuenctid wrth gefnogi atal digartrefedd.

***Rhagarweiniad***

Mae'r grŵp ffocws yn cyflwyno'r dystiolaeth o grŵp ffocws gyda phedwar person ifanc o brosiect digartrefedd gwasanaeth ieuenctid awdurdod lleol. Cynhwysir safbwyntiau'r bobl ifanc ynghyd â thystiolaeth o ddata a gyhoeddwyd ar y prosiect. Mae'n amlinellu enghraifft o fanteision dull gwaith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc yn holistaidd trwy eu galluogi i gael cartref, datblygu sgiliau bywyd/sgiliau byw annibynnol, cynnig cefnogaeth emosiynol, a darparu cyfleoedd i gael gwaith.

***Cyd-destun***

Mae prosiect gwaith ieuenctid sy'n ceisio "cefnogi, addysgu a gwella sgiliau pobl ifanc er mwyn osgoi digartrefedd" yn dangos manteision dull gwaith ieuenctid. Mae'r prosiect yn cynnig sawl math o gefnogaeth i fynd i'r afael â natur aml-ddimensiwn digartrefedd:

- Mae'r prosiect yn cynnig llety â chymorth dros dro, lle y gall pobl ifanc 18-25 oed ddatblygu sgiliau byw annibynnol amrywiol cyn byw ar eu pen eu hunain.
- Mae'r prosiect yn cynnig gwasanaeth 'cefnogaeth arnofiol' gweithiwr ieuenctid i helpu pobl ifanc sy'n wynebu perygl digartrefedd i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth i wneud cais am, cael a gofalu am lety priodol, a bod yn aelod gweithgar o'r gymuned y maent yn byw ynddi.
- Darperir sgiliau byw annibynnol yn ogystal ag amgylchedd dysgu rhithiol sy'n cynnwys cyfleuster i gysylltu â gweithwyr ieuenctid o fewn y llwyfan pe baent angen mwy o gyngor neu eglurder.
- Mae'r prosiect hefyd yn darparu cynllun benthyca celfi ac offer.
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ar ddigartrefedd trwy weithdai mewn ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a grwpiau cymunedol.

Hefyd, mae ymrymuso pobl ifanc yn cael ei ystyried yn hanfodol trwy sicrhau bod lleisiau a phrofiadau bywyd pobl ifanc yn cael gwrandawiad gan wneuthurwyr penderfyniadau a'u bod yn cael cyfle i gyfrannu at y ddarpariaeth.

***Themâu***

Bu pedwar person ifanc, dau fachgen a dwy ferch 18-25 oed, yn sôn am y prif fanteision iddyn nhw o gymryd rhan mewn gwaith ieuenctid i'w cefnogi gyda'u digartrefedd:

***Tai/cymorth gyda thenantiaethau***

Ar gyfer yr holl bobl ifanc oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth ieuenctid yn y prosiect hwn fe wnaethon nhw sôn ei fod wedi'u galluogi i gael llety â chymorth a llety hirdymor:

> YP 1: *"…pan ges i fy nghicio allan…felly am y chwe mis yna, roeddwn i, fel, yn gyfan gwbl ar y mhen fy hun. Y cyfan oedd gen i oedd fy ffrindiau. Ac yna daeth un o fy ffrindiau ata i a dweud wrtha i fynd i weld y gwasanaeth ieuenctid gan y gallwch chi fynd gyda nhw ac fe allan nhw eich helpu gryn dilynt, a fyth ers hynny rydw i wedi byw mewn llety â chymorth...".*

> YP 3*: "Mae 'na lawer o, wel, mae 'na lawer o  bobl yn ceisio cael tai ac mae llawer yn cael eu gwrthod, llawer ohonyn nhw oherwydd bod pobl eraill yn cael lle. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn fy helpu i ddod o hyd i leoedd y gallwn symud iddyn nhw ac mae'n helpu hefyd i drefnu gweld y lleoedd 'ma. Rydw i'n gweld, fel beth sydd ar gael a cheisio gwneud cais am bopeth alla i. Ac fe helpon nhw fi hefyd gyda ffurflenni a gwneud cais am dai cyngor hefyd.*

Roeddent yn dweud mai'r gefnogaeth ychwanegol gan y gwasanaeth ieuenctid oedd wedi'u helpu i gael a chadw llety oedd yn cynnwys: cael cefnogaeth gyda sgiliau byw annibynnol, cefnogaeth gyson gyda'r denantiaeth trwy helpu gyda llenwi ffurflenni budd-dâl tai a rheoli biliau:

> YP 1: *"Doedd gen i ddim sgiliau i fyw'n annibynnol. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i goginio, sut i olchi dillad, doeddwn i ddim yn gwybod unrhyw beth. Fe ddysgais i sut i fyw'n annibynnol yma. Fe ddysgon nhw fi, wel, fe sonion nhw am, fel, sut mae'r bocs ffiwsiau'n gweithio. Fe ddywedon nhw wrtha i sut i goginio. Fe ddywedon nhw sut i olchi dillad, gwneud y smwddio. Felly fe ddysgais i fy holl* sgiliau byw annibynnol *yma, ac fe helpon nhw hefyd oherwydd, wel, roeddwn i'n cynnig am unrhyw dŷ y gallwn ddod o hyd iddo.*

> YP 2*: "Felly roeddwn i mor ddiolchgar a byth ers hynny rydw i wedi bod yn byw yma. Erbyn hyn ers bron i 2 flynedd a hanner. A thrwy gael y cymorth ychwanegol 'na, rydw i wedi dysgu llawer mwy am denantiaethau, biliau, trefnu arian, sut i ofalu am fy hun, chi'n gwybod, pan fydda i'n cael fy lle fy hun. Sut i reoli'r biliau ac ati? Oherwydd rydyn ni, rydyn ni'n talu ffi bach tuag at, chi'n gwybod, pethau trydanol a stwff. Ac mae wedi bod yn help enfawr…"*

Roedd y cyfleoedd addysgol a phersonol a chymdeithasol ychwanegol a nodwyd yn cynnwys:

YP 2 *"Fe ymunais i'n ddiweddar. Ers hynny fe ges i lwyth o gyfleoedd i ymuno â fel prosiectau gwahanol, mae gen i sesiwn lle mae'n dysgu sgiliau rhifedd imi ond hefyd sgiliau bywyd am arian".*

YP 1*:" Rydyn ni. Ie, rydw i wedi gwneud cymaint o weithgareddau fel mynd ar deithiau cerdded, mynd i fel [Enw'r ardal awyr agored] a chrwydro [sir] hefyd. Mae wedi bod yn gyfle enfawr ac mae wedi bod yn anhygoel mynd allan damaid bach yn fwy a rhoi hwb i fy hyder ar yr un pryd er mwyn mynd nôl i'r coleg".*

***Cefnogaeth emosiynol/iechyd meddwl***

Nodwyd fod y gefnogaeth emosiynol a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid/gweithwyr ieuenctid yn bwysig, ac roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gydag iechyd meddwl. Trafododd y bobl ifanc nifer o faterion oedd wedi effeithio eu hiechyd meddwl oedd yn cael eu gweld hefyd yn ffactorau a arweiniodd at eu statws digartref. Er enghraifft, y profiadau a drafodwyd oedd camdrin rhywiol, camdrin domestig a gorlawnder:

YP 4: *"Yn amlwg oherwydd popeth sydd wedi digwydd. Yn ddiweddar ac fel yn fwy yn y gorffennol, rydw i wedi datblygu nifer o fel problemau iechyd meddwl eitha difrifol. Ac yn amlwg, fel does ganddyn nhw ddim cymwysterau i roi fel cymorth proffesiynol. Ond mae fy ngweithiwr ieuenctid fel os nad ydw i'n teimlo'n iawn yn feddyliol, fe awn ni i'r dre, cael coffi, cael sgwrs. Ac maen nhw fel yn rhoi fel y gefnogaeth orau allan nhw imi. Ac yn amlwg maen nhw wedi fy nghyfeirio i at y lleoedd iawn fel i gael cymorth os oeddwn i eisiau hynny. Ie, y bobl yma, maen nhw'n symud nef a daear i'n cefnogi ni ac allwn i ddim bod yn fwy diolchgar. "*

***Perthnasoedd mewn gwaith ieuenctid***

Trafododd y bobl ifanc bwysigrwydd y perthnasoedd yr oedd gan y bobl ifanc gyda gweithiwr ieuenctid a dywedodd un person ifanc:

YP 2: *"…mae bod yn ffrind, a rhiant, yn fy nghael allan o'r gwely i fynd i apwyntiadau, fy nghael i ar hyfforddiant, mae'n dangos imi at bwy i fynd i gael mwy o help".*

YP 1: "…mae'n debyg mai fy ngweithiwr cymorth i ac un [enw person ifanc] hi yw un o'r help mwya rydw i wedi'i gael drwy'r gwasanaeth ieuenctid oherwydd hi yw ein prif gefnogaeth ac er efallai nad ydy hi'n gallu rhoi fel help proffesiynol inni fel y cyfryw ar gyfer rhai materion iechyd meddwl, mae hi wedi bod fel asgwrn cefn imi trwy bob digwyddiad trawmatig rydw i wedi'u cael. Fel mae hi'n gallu. Efallai ei bod yn bach o boen yn y pen ôl weithiau gan ei bod yn dod mewn bob dydd ac mae'n ein cael i godi a symud. Mae hi. Mae hi wedi bod yno ar gyfer popeth ac roeddwn i'n teimlo'n dda iawn. Er weithiau ei bod yn fy ngwylltio…, ond rydw i'n gwybod ei bod yn gofalu amdanon ni".

YP 1: *"Mae'n fwy na dim ond tai inni. Mae'n golygu cael y gefnogaeth 'na. Inni, mae am fod yn rhiant inni ar yr un pryd. Os ydych chi'n fy neall i"….*

YP 2: *"Roeddwn yn ddigon anodd. Doeddwn i ddim yn hoffi siarad, agor fy nghalon, dim byd. Dim o hynna. Doeddwn i ddim eisiau gwneud dim ohono fo. Roedd yn dda gwybod na throeodd ei chefn arna i. Ie, a dydy hi ddim. Oherwydd dydyn nhw ddim. Maen nhw'n dod o hyd i ffyrdd i gysylltu â chi, cyfathrebu gyda chi. Maen nhw'n gweithio allan beth yw'ch iaith chi. Ac wedyn maen nhw'n gwneud y gwaith a ddim yn eich poeni chi. Dydyn nhw ddim yn eich barnu chi. Dydyn nhw ddim yn gwneud unrhyw beth. Maen nhw jyst yn gwrando. Dyna pam weithiau dyna'i gyd rydych eisiau yn eich bywyd".*

YP 3: *"Yn bersonol imi, fel, fe dyfais i fyny mewn teulu digon hen ffasiwn balch fel…. Ac fe ges i nghodi i beidio siarad am fy nheimladau a jyst dal ati a'r holl stwff 'na. Ac felly rydw i. Rydw i'n gaeëdig braidd. Dydw i ddim yn siarad llawer am sut rydw i'n teimlo a stwff fel 'na. Wedyn mae [enw'r gweithiwr ieuenctid] mwy neu lai mae e'n un o fy ffrindiau, mae mwy neu lai wedi gweithio cymaint arna i fel y gallwn ni eistedd lawr, paned o goffi, cael sgwrs am unrhyw beth o gwbl, ac mae'n braf oherwydd dyw e ddim yn teimlo mod i'n cael fy nghroesholi fel, mae'n teimlo fel dau ffrind yn mynd i gael coffi i ddala lan. Sy'n braf".*

### *Ymrymuso*

Roedd ymrymuso pobl ifanc i gael llais yn amlwg iawn o safbwynt y bobl ifanc, mae'r bobl ifanc fu yn y grŵp ffocws yn aelodau o fforwm Tai. Fe ddywedon nhw eu bod yn gwneud hyn fel y gallant *"helpu newid pethau i bobl ifanc eraill"* (YP1). Er enghraifft, rhoi cyngor ar ffurflen budd-dâl tai sy'n fwy addas i bobl ifanc, ac esbonio materion i'r cyngor lleol, fel y dywedodd un person ifanc: "*Rydw i'n teimlo mod i'n gwneud gwahaniaeth a bod pobl yn gwrando hefyd, amser a ddengys faint o wahaniaeth os yw pobl yn gwneud beth rydyn ni'n awgrymu…"(YP3).*

YP 1: "*…mae pob un ohonan ni yma yn y fforwm erbyn hyn ac rydan ni'n siarad nid yn unig am ein profiadau, mae'r ffurflen budd-dâl tai yn ddigon cymhleth ac yn ddigon bygythiol, rydw i'n casáu ei chael yn fy nwylo. Mae'n codi ofn arna i. Mae'r ddwy yn ddiflas, dyna beth rydan ni'n ei wella ar hyn o bryd. Rydan ni'n ceisio awgrymu ffyrdd o fel ei moderneiddio a'i gwneud yn fwy hwylus. Ie, ei gwneud yn fwy hwylus i bobl sydd, chi'n gwybod, ei hangen".*

YP 3: *"Ie, mae'r ffurflen dai mor gymhleth i bobl fel ni ac iau ac mae edrych arni yn diflasu dyn. Felly rydyn ni'n ceisio gweithio ar ffyrdd o'i gwneud yn rhwyddach iddyn nhw ei llenwi. Dim ond ei gwneud hi ar-lein a chael codau QR. Rydyn ni wedi taflu ambell syniad o gwmpas, chi'n gwybod, ieithoedd gwahanol a newid y lliw, newid y lliwiau oherwydd dyslecsia neu liw…"*

YP 2*: Rydw i'n bendant wedi cael mwy o sgiliau neu hyder. i siarad, siarad â phobl ychydig mwy, yn enwedig os yw'n rhywbeth rydw i'n teimlo'n gryf amdano. Rydw i'n dal ei chael yn anodd gyda phethau fel torfeydd o bobl a stwff, ond rydw i'n chwilio am therapi i hynny, ac ie, hyder ynof fi fy hun yn bendant, gallu helpu eraill hefyd oherwydd rhan o'n fforwm digartrefedd ni a gyda'r gwasanaeth ieuenctid yw ein bod eisiau helpu pobl eraill sydd wedi bod yn mynd trwy rai sefyllfaoedd fel y gwnaethon ni, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydw i am ei wneud a dydw i ddim yn credu y byddwn wedi gallu*

*codi llais a bod yn onest am bethau felly, oni bai am hynna, yr holl gefnogaeth ges i dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf".*

***Meddyliau i gloi***

O safbwyntiau'r bobl ifanc roedd gwaith ieuenctid yn cynnig sawl dewis cadarnhaol iddynt. Roedd yn eu galluogi i gael cymorth tai perthnasol a chymorth ychwanegol trwy weithiwr ieuenctid, cymorth oedd yn cael ei deilwra i'w hanghenion unigol ac yn cynnig llwyfan ar gyfer ymrymuso. Mae'n amlwg fod risgiau digartrefedd yn cael eu lleihau trwy ddull holistaidd, amlweddog; o safbwynt person ifanc roedd hefyd yn newid eu bywydau, a dywedodd un person ifanc:

YP 1 *"…Efallai fod hyn yn swnio fel ychwanegol, ond o ddifrif, dyma fy ngwirionedd i. Os na allwn ddefnyddio hwn, wn i ddim ble byddwn i heddiw. Dydw i wir ddim fel. Mae'n debyg na fyddwn yn gwybod sut i goginio o hyd. Ie, dydw i ddim hyd yn oed yn gwybod ble fyddwn i heddiw heb y gefnogaeth, fe fyddwn i allan ar y strydoedd. Mae'n debyg y byddwn i fel fy nhad os ydw i'n onest, fe fyddwn fel fy nhad, yn farw."*

**Iechyd a llesiant**

***Ffocws***

Manteision gwaith ieuenctid yn cefnogi iechyd emosiynol a llesiant.

***Rhagarweiniad***

Mae'r grŵp ffocws yn cyflwyno'r dystiolaeth o grŵp ffocws gyda chwe pherson ifanc o brosiect llesiant ieuenctid awdurdod lleol. Cynhwysir safbwyntiau'r bobl ifanc ynghyd â thystiolaeth o ddata a gyhoeddwyd ar iechyd emosiynol a llesiant pobl ifanc. Mae'n amlinellu enghreifftiau o fanteision dull gwaith ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc yn holistaidd trwy eu galluogi i dderbyn addysg bersonol, gymdeithasol, ac emosiynol a chefnogaeth emosiynol, a darparu cyfleoedd ar gyfer tyfu, datblygu, a galluogedd.

***Cyd-destun***

Dywedodd pobl ifanc yn y gymuned leol eu bod eisiau cefnogaeth gyda'u hiechyd meddwl, ond nid oeddent naill ai'n cyrraedd y trothwy ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) neu nid oeddent eisiau ymwneud â gwasanaethau iechyd. Yn dilyn ymgynghoriad manwl gyda phobl ifanc, datblygwyd prosiect a ddylanwadwyd gan raglen "State of Mind" Platform i ddarparu grŵp cefnogi anghlinigol ar gyfer pobl ifanc lle y gallent deimlo'n gyfforddus a chael gafael ar gefnogaeth, gwybodaeth ac arweiniad mewn ffordd hygyrch, anffurfiol ac ymlaciol. Prosiect gwaith ieuenctid sy'n ceisio "darparu lle diogel i bobl ifanc siarad, helpu pobl ifanc i wneud ffrindiau newydd a dysgu mwy am iechyd meddwl ac am sut y gallant gefnogi ei gilydd ac eraill all fod yn cael trafferthion gyda'u hiechyd meddwl". Gall pobl ifanc weithio gyda rhaglen 'START', sy'n ceisio cefnogi pobl ifanc gorbryderus neu bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd yn gymdeithasol ac sy'n cynnwys sesiynau ar bynciau fel adeiladu gwytnwch, strategaethau ymdopi, sgiliau bywyd, bwyta'n iach, perthnasoedd cadarnhaol, gwaith tîm, a phrofiadau addysg awyr agored. Fel arall, gall pobl ifanc ddefnyddio rhaglen 'RESTART'. Nod y rhaglen hon yw gweithio gyda phobl ifanc sy'n wynebu risgiau yn

eu cymuned leol neu sy'n cael anawsterau gyda'u hymddygiad mewn addysg prif ffrwd ac mae'n cael ei chyflwyno i uchafswm o ddeg person ifanc ac mae'n cynnwys sesiynau craidd ar adeiladu gwytnwch, diogelwch ac atal ecsploetio, ymwybyddiaeth o ddefnyddio sylweddau, perthnasoedd iachus, a datblygu sgiliau rhyngbersonol.

Mae'r prosiect yn rhaglen bwrpasol ar gyfer pobl ifanc 13-18 oed a ddarperir gan staff gwasanaethau ieuenctid ac arweinyddion ifanc sy'n gwbl gymwys i gyflwyno rhaglen "State of Mind" Platform. Mae codi hyder, galluogedd a hunan-barch yn ganolog i'r prosiect sydd wedi dangos sut mae iechyd emosiynol a llesiant pobl ifanc wedi gwella.

***Themâu***

Soniodd pum person ifanc 14-18 oed am y prif fanteision iddyn nhw o fanteisio ar waith ieuenctid i'w cefnogi gyda'u hiechyd emosiynol a llesiant.

***Perthnasoedd mewn gwaith ieuenctid a rhwydweithiau cefnogaeth***

Dywedodd y bobl ifanc sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth ieuenctid yn y prosiect hwn ei fod yn eu galluogi i fanteisio ar rwydweithiau cefnogol o oedolion a chyfoedion y gallent ymddiried ynddynt, gwybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad sy'n bwysig iddyn nhw ynghyd ag ymdeimlad cryfach o lesiant cadarnhaol:

> YP 1: *"…. daeth â ni'n agosach fel cymuned, mae'n dda bod yn ffrindiau gyda phobl yn eich cymuned yn hytrach na bod ar eich pen eich hun gan ein bod i gyd yn cefnogi'n gilydd, a gyda'r holl gefnogaeth 'na gallwn wir helpu ein gilydd".*

> YP 2*: "…mae'n dda imi, rydw i wedi sylwi fod yna bobl y galla i fel siarad â nhw – fel os nad ydw i eisiau siarad â neb gartref mae 'na bobl y galla i siarad â nhw yma …. mae'n dda iawn yn y clwb ieuenctid oherwydd pan ges i fy nghicio allan, fel rydw i'n swil iawn a dydw i ddim yn hoffi siarad gyda fy ngweithiwr cymdeithasol ac fe helpon nhw fi…. a phethau felly os ydych chi'n deall, doeddwn i ddim yn teimlo mod i ar ben fy hun."*

> YP 3: *"…mwy o amgylchedd diogel, fel gallwch ymddiried ynddyn nhw a chael y gefnogaeth rydych ei hangen a phan rydych ei hangen hefyd. Maen nhw'n ein hadnabod ac rydyn ni'n ymddiried ynddyn nhw…".*

> YP 5: *"cyn hynny doeddwn i byth yn mynd allan o'r tŷ, doeddwn i byth yn mynd allan o'r tŷ am unrhyw beth roeddwn yn poeni am bopeth ac yn teimlo mor unig a phan wnes i ddechrau gadael fy nhŷ i ddod yma roedd yn teimlo'n dda i fod yn rhan o rywbeth, i fod yn rhan o gymuned o bobl yr un oed â fi".*

> YP 4: *"Os ydych chi'n poeni mae'n braf cael mwy o gysur trwy fod rhywun yno"*

***Cynyddu hyder***

Dywedodd y grŵp fod cefnogaeth gwaith ieuenctid yn adeiladu eu hyder ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau oedd yn hyrwyddo gwell iechyd emosiynol a llesiant.

YP 1: *"…fe wellodd fy hyder yn bendant… ar y dechrau roeddwn i'n na, na doeddwn i ddim eisiau bod ynghanol pobl ac wedyn….fe wnaeth imi ddod allan o fy nghragen a rhoi cynnig ar bethau newydd ac wedyn fe es i 'mlaen i bethau mwy a gwell".*

YP 5: *"gwnaeth imi fentro allan o fy myd bach fy hun, doeddwn i byth yn dod allan o'r tŷ, fe fyddwn i'n mynd i'r ysgol dod adref eistedd yn y tŷ gwneud dim byd…wedyn fe ddechreuais i fynd i'r clwb ieuenctid, tyrd i'r clwb ieuenctid i gyfarfod pawb fel oedrannau gwahanol a gallu cymysgu gyda chymaint o bobl wahanol…"*

YP 3: *" …gwnaeth argraff ar bobl iau newydd.. teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad â fi am stwff"*

YP 4: *"…cwlwm yr un ieuengaf gyda ni (Arweinyddion Ifanc), gofyn cwestiynau inni ac os ydyn nhw angen help neu'n swil iawn, maen nhw'n dod aton ni, ac rydyn ni'n eu helpu nhw i gymysgu gyda phobl eraill".*

YP 1: *"…gwnaeth fi'n fwy hyderus, gwneud mwy o ffrindiau…. teimlo fel bondio gyda phobl yn well, gwnaeth imi sylweddoli fod personoliaethau yn wahanol a bod gwahaniaethau yn dda"*

YP 2: *" mae wedi rhoi mwy o hyder imi gwrdd â phobl newydd, fel o'r blaen fyddwn i byth wedi mynd at rywun a bod fel ti ishe bod yn ffrindiau…"*

***Cefnogi iechyd emosiynol***

Nodwyd fod cefnogaeth gydag iechyd emosiynol a llesiant yn bwysig, gan gynnwys ei effaith ar leihau lefelau o unigrwydd cymdeithasol, gorbryder, ymddygiad ymosodol a thrais.

YP 2: *" Roeddwn i'n mynd ar i lawr o ddifrif, roeddwn yn rhedeg i ffwrdd lot, yn ymladd gyda fy mrodyr, yr heddlu'n cael eu galw drwy'r amser…wedyn fe ddechreuais i ddod i'r clwb ac fe ges i bach o help…rydw i'n flin na ddechreuais i ddod i'r clwb yn gynt oherwydd fe ges i'r help 'na, mae'n fy helpu………..fe aethon nhw â fi oddi ar mam oherwydd doedd hi ddim yn gallu delio gyda fi ond erbyn hyn oherwydd mod i 'di cael yr help meddyliol roeddwn i ei angen maen nhw'n mynd i adael imi fynd yn ôl at mam yn araf bach".*

YP 4: *"fe allan nhw helpu pawb nid dim ond plant drwg neu rai swil, pawb"*

YP 3: *"fe wellodd fy iechyd meddwl a llesiant i gymaint ers imi ddechrau dod yma"*

YP 5: *“fe ddysges i beth i’w wneud pan oeddwn i’n poeni gormod ac yn gwneud drwg imi fy hun…unwaith fe redes i ffwrdd o’r cartref gofal ac roeddwn yn teimlo’n gynhyrfus iawn ac roedd fy nghalon yn curo’n gyflym iawn ac fe ddywedon nhw am roi cynnig ar anadlu blwch”.*

***Cynyddu gwybodaeth a sgiliau***

Dywedodd y bobl ifanc y cafodd effaith amlwg ar eu gwybodaeth a’u sgiliau hefyd.

YP 1: *“ar ôl gwneud yr holl grwpiau mae ganddoch chi well golwg ar fywyd yn amlwg gan eich bod yn gwybod lot mwy a bod ganddoch chi wybodaeth…. hyd yn oed yn ddiweddar pan es i mewn i’r coleg, fe ddefnyddies i’r sgiliau ges i yn y byd go iawn heb hyd yn oed sylweddoli hynny*”.

YP 3: *“… fe wnaethon ni berthnasoedd iach a pherthnasoedd afiach ac roedd hynny’n dda gan mod i wedi ei wneud pan roeddwn i ym mlwyddyn 10 ac roedd gan bawb gyfeillion a pherthnasoedd afiach, ond doedden ni ddim yn gwybod sut i weld yr arwyddion neu sut i roi terfyn ar bethau neu beth oedd yn dderbyniol felly fel helpodd hynny fi i feddwl falle nad yw’r gyfeillgarwch yma’n iawn neu falle nad yw fy nghariad yn fy nhrin yn iawn, dydy hynny ddim yn iawn, gweiddi arna i … falle fod angen imi ddianc o hwn yn awr”*

YP 4: *“fel fe ddysgon nhw gymaint imi, fe ges i gymaint o gyfleoedd ac ysbrydoliaeth fel ychydig fisoedd wedyn fe wnes i gais i fod yn wirfoddolydd ifanc ac roedd gwneud cais a chael cyfweliad oedd yn brofiad da gan nad oeddwn i’n gwybod dim am y broses honno felly erbyn hyn, rwy’n gwneud gwirfoddolwyr ifanc… rwy’n gwirfoddoli cymaint, fe sefydlais i grŵp sgiliau ar gyfer y merched iau……. sesiynau ar dlodi a stigma misglwyf, fe wnaethon nhw gyfeillgarwch, a hyder gan mod i’n teimlo fod hwnnw’n beth mawr ar hyn o bryd…. fe wnes i fy lefel 1 mewn gwaith ieuenctid”.*

YP 5*: “Roeddwn i’n chwilio am swydd oherwydd doedd gen i ddim arian ac fe helpon nhw fi gyda CV ac ati ac fe ddanfones i ebost ac fe ges i swydd”.*

YP 3: *“Rwy’n gwybod fod y gwasanaeth ieuenctid wedi gwella fy mhresenoldeb gan nad oeddwn i’n gallu codi yn y bore, rwy i’r math o berson fyddwn i ddim yn siarad â’r athro ond erbyn hyn fe alla i siarad â nhw (gweithwyr ieuenctid) ac wedyn gyda help fe alla i ymddiried yn fy athro a’r pennaeth blwyddyn”.*

**Meddyliau i gloi**

O safbwyntiau’r bobl ifanc roedd gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd datblygu personol, cymdeithasol, emosiynol ac addysgiadol o bob math ac o safbwynt un person ifanc cafodd effaith anferthol a dywedodd un person ifanc:

YP 1 *“…gwthiodd gwaith ieuenctid, i fel yr eithaf, mae fy nherfynau’n ddi-ddiwedd ond fel dydw i ddim yn meddwl y byddwn i wedi cyrraedd ble rydw i nawr heb yr holl brofiadau maen nhw wedi’u rhoi imi a’r holl sgiliau maen nhw wedi fy helpu i’w datblygu,*

*mae'n bendant wedi fy mharatoi ar gyfer y dyfodol, gyda phopeth rydw i wedi'i ddysgu, a phopeth y cymerais ran ynddyn nhw, popeth rydw i wedi'i weld, mae'n fy ngwneud i'n well person".*

**Vignette: Arweinyddion strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru: Prif weithredwyr yn y sector gwaith ieuenctid gwirfoddol; grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid awdurdodau lleol:**

Mae’r vignette yn dangos y dystiolaeth o grwpiau ffocws gydag arweinyddion strategol allweddol o’r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ac awdurdodau lleol ledled Cymru: un gydag 14 Prif Weithredwr a/neu eu cynrychiolyddion o’r sector gwaith ieuenctid gwirfoddol [VYWS] a dau gyda chyfanswm o 21 Prif Swyddog Ieuenctid a/neu eu cynrychiolyddion. Trafodwyd effaith gwaith ieuenctid ym mhum maes effaith y gwerthusiad economaidd hwn yn y grwpiau ffocws.

Nodwyd ystod o dystiolaeth gyhoeddedig gan y ddau grŵp [VYWS, Prif Swyddogion Ieuenctid awdurdodau lleol] o ran astudiaethau enghreifftiol o brosiectau unigol, oedd yn dangos gwerthusiadau ac ymchwil amrywiol sy’n cynnig tystiolaeth bellach o effaith gwaith ieuenctid yn y meysydd effaith. Mae dolenni iddynt i’w gweld ar ddiwedd y sesiwn hon.

**Cyd-destun:**

Roedd y grŵp ffocws gyda’r 14 Prif Weithredwr yn cynrychioli ystod eang o fudiadau sector gwaith ieuenctid gwirfoddol ar lefel genedlaethol a lleol ledled Cymru (6 mudiad lleol ac 8 cenedlaethol). Roedd y ddau grŵp ffocws a gynhaliwyd gyda 21 Prif Swyddog Ieuenctid a/neu eu cynrychiolyddion yn adlewyrchu 20 gwasanaeth ieuenctid awdurdodau lleol ar draws Cymru.

**Themâu**

***Effaith***

Trafodwyd y pum maes effaith yn y grwpiau ffocws, ac roedd yn amlwg o’r holl grwpiau ffocws fod y meysydd effaith yn cysylltu â’i gilydd, a hynny oherwydd egwyddorion a phwrpas sylfaenol gwaith ieuenctid a’i ddull unigryw o gefnogi pobl ifanc yn holistaidd.

i. Dulliau gwaith ieuenctid

*Natur holistaidd gwaith ieuenctid*

Roedd natur holistaidd gwaith ieuenctid a sut mae felly’n cefnogi pob un o’r pum maes effaith yn fater allweddol a drafodwyd yn yr holl grwpiau ffocws; mae’r dyfyniadau canlynol yn amlygu natur ryng-gysylltiedig deilliannau ac effeithiau prosiectau:

> VYWS P1: *“Mae gwaith ieuenctid yn gweithio mewn ffordd holistaidd ac mae’n gallu darparu cefnogaeth yn y meysydd hynny oherwydd y ffordd mae’n gweithio / dulliau cyfranogol [Egwyddorion gwaith ieuenctid], gwirfoddoli, perthnasoedd, anogaeth, hwyl, cynnig cyngor, cyfeirio pobl. Ond mae’n digwydd gydag amser, nid dros nos”.*

> PYO P3: *“Nid oes unrhyw agwedd ar fywyd person ifanc neu gymuned nad yw gwaith ieuenctid yn ei gyffwrdd, chi’n gwybod, mae’n cwmpasu’r cyfan, yn tydy”!*

> VYWS P14: *“Anodd gwahaniaethu’r pethau hyn [ 5 maes effaith]”*

> PYO P17: *“Adeiladu ar yr hyn ddywedodd y [Prif Swyddog Ieuenctid] mewn gwirionedd, rydw i’n credu mai cyfrinach y gwaith yw y gallwn ni integreiddio rhaglenni holistaidd sydd yn gallu mewn un sesiwn fe allwn ni roi cynnig ar hyrwyddo pob un o’r pump mewn un sesiwn, allwn ni ddim? O ran fel datblygu rhaglen integredig i fynd i’r afael â sawl maes, er enghraifft mewn synhwyrydd newydd, fe*

*allech chi fod yn cynnig gweithdy sy'n addysgiadol, efallai agwedd o'ch camp chwaraeon neu lesiant a hefyd gyfleoedd gwirfoddoli allai ddigwydd mewn un sesiwn mewn un adeilad. Felly, mae fel ei fod yn integreiddio pob un ohonynt a dyna gyfrinach gwaith ieuenctid …. byddai llais y bobl ifanc yn rhan o hyn hefyd, felly sicrhau bod pobl ifanc yn cyfrannu o ddifrif at wneud y penderfyniadau. Rydw i'n credu ei fod yn unigryw".*

VYWS P8: *"Yn dilyn [...], [...] mae ceisio rhoi hyn i gyd mewn adrannau yn anodd iawn oherwydd un o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud mewn gwaith ieuenctid yw datblygu dinasyddiaeth a pharch ymhlith pobl ifanc ac mae hynny'n rhoi mwy o ddealltwriaeth o'ch cymuned ichi…"*

PYO P1: *"…yn y prosiect [enw] fe wnaethon ni lwyth o waith mewn partneriaeth ac….oherwydd y gwaith, fe gafwyd llai o ymddygiad gwrth-gymgymdeithasol, gwell perthnasoedd rhwng pobl ifanc, llesiant pobl ifanc yn gwella a'r ymdeimlad o ddiogelwch yn y gymuned yn cryfhau. Roedd mwy o weithgareddau dargyfeiriol ar gael i bobl ifanc, ac roedd mwy o enghreifftiau o fodelau rôl cadarnhaol a mentora ar gyfer pobl ifanc ac roedd gwell iechyd meddyliol a chorfforol, mwy o wybodaeth a gwell sgiliau, mwy o hunan-hyder, gwerth a pharch a chydlyniant cymunedol oedd yn fath o fanteision o safbwynt person ifanc a chymunedau. Fe gawson ni fanteision hefyd i'n gwasanaeth ein hunain gan ein partneriaid a chan ein staff ein hunain hefyd. Fe'n rhoddodd ni mewn safle da yn yr awdurdod lleol ac yn y gymuned".*

PYO P7: *"…yn amlwg rydyn ni wedi lansio cynllun cymunedol [enw ardal], sydd os edrychwch chi ar y cynllun cymunedol hwnnw a'r amcanion a'r disgwyliadau yn y cynllun hwnnw, mae'n cynnwys y rhan fwyaf o'r pethau hynny yr ydych chi wedi'u hamlinellu fanna o ran diogelwch cymunedol, iechyd a llesiant, addysg, hyfforddiant, cymuned a gwirfoddoli."*

*Natur unigryw gwaith ieuenctid*

Mae natur holistaidd gwaith ieuenctid yn cysylltu â natur unigryw y ffordd mae'n gweithio, ac mae'r dyfyniadau canlynol yn dangos sut mae gwaith ieuenctid yn gallu dylanwadu ar y meysydd effaith trwy ei ffordd o weithio:

VYWS P1*: "Nid cyfranogi yn unig ond mae'n cael ei gynnal gan y pedwar Piler Gwaith Ieuenctid arall – gellir asesu'r rhain yn erbyn pum maes allweddol yr ymchwil".*

PYO P7*: "Mae methodolegau gwahanol yn cael effeithiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol, ond rydw i'n credu mai'r hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod yw fod cysylltiad annatod rhwng y gwahanol fethodolegau. Chi'n gwybod, nid yw cefnogaeth wedi'i thargedu yn gwbl wahanol i waith ieuenctid drws agored, a'r hyn rydyn ni'n ei wneud ar hyn o bryd yw dod â'n holl ddisgyblaethau at ei gilydd mewn model ardal i edrych ar ddeilliannau i bobl ifanc. Felly beth welson ni yw beth sy'n gweithio mewn gwirionedd, yn dda iawn, yw pan mae ganddon ni gefnogaeth un ac un yn ein hysgolion a phobl ifanc yn gweithio gyda staff unigol a phan mae'r staff hefyd yn gweithio mewn darpariaeth drws agored gyda'r nos ac mae peth o'r gwaith yn gallu mynd yn ei flaen a gall peth o'r gwaith cysylltiol hwnnw ddatblygu'n weithgarwch grŵp gwaith ieuenctid fel bod cwricwlwm anffurfiol yn cael ei raeadru o waith mewn ysgolion, ond i mewn i waith gyda'r nos, yn enwedig o gwmpas".*

*PYO P5: "…allwn ni ddim rhoi gormod o bwyslais ar yr ymgysylltu gwirfoddol 'na. Chi'n gwybod, mae angen i bobl ifanc fod eisiau gweithio gyda ni. Felly, chi'n*

*gwybod, maen nhw ein hangen ni. Maen nhw angen y gweithwyr ieuenctid, a chi'n gwybod, mae gweithwyr ieuenctid yn dyfalbarhau, nhw yw'r oedolyn y gellir ymddiried ynddynt a'r rôl fodel, a'r person hwnnw neu honno y gall pobl ifanc ymddiried ynddynt, y byddan nhw yna pan maen nhw'n dweud y byddan nhw yno. A chi'n gwybod, mae llawer o'n pobl ifanc wedi dweud, wel, does ganddoch chi ddim agenda, dydych chi ddim wedi dweud wrtha i fod rhaid imi wneud hyn, dydych chi ddim wedi dweud wrtha i fod rhaid imi fod yma, dydych chi ddim wedi dweud wrtha i beth i'w wneud, ac rydych chi'n gwrando. Felly, rydw i'n meddwl fod rheina i gyd yn bethau hollbwysig sydd, chi'n gwybod, dyna pam y mae gwaith ieuenctid yn gwneud cymaint o argraff oherwydd does ganddon ni ddim agenda mewn gwirionedd".*

VYWS P9: *"Rhan fawr o waith ieuenctid yw ei allu i gyrraedd pobl a gwneud pethau gyda'i fethodoleg y mae gwasanaethau eraill yn ei chael yn anodd iawn i'w gwneud…gall pobl ifanc gerdded i ffwrdd felly mae'n rhaid inni wneud gwahaniaeth… o ran economeg rydyn ni'n cyrraedd pobl sydd efallai'n cael dim byd arall felly mae ein gwerth ychwanegol gymaint yn fwy gan nad ydynt yn cael dim byd o unrhyw le arall".*

VYWS P8: *"ar ryw bwynt yn eu bywydau dylai fod gan bob person ifanc hawl i gael gwaith ieuenctid ac yn y Gymraeg hefyd".*

ii. Diogelwch cymunedol

Mae diogelwch cymunedol, fel y nodwyd yn y grwpiau ffocws, yn gysyniad aml-weddog a gall gwmpasu cymaint o safbwyntiau a diffiniadau gwahanol. Mae gwaith ieuenctid yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n darparu'r effeithiau / manteision canlynol yn y maes hwn: cynnig cefnogaeth a lleoedd diogel i bobl ifanc; mae'n cynnig gweithgareddau dargyfeiriol ac yn helpu mynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol a materion llinellau sirol.

*Lleoedd diogel*

Roedd pwysigrwydd gwaith ieuenctid yn darparu lleoedd diogel i bobl ifanc yn fater allweddol a drafodwyd:

VYWS P2: *" …mae gwaith ieuenctid yn darparu lleoedd diogel - a gwaith ieuenctid mewn canolfannau yn enwedig – ar gyfer nodweddion gwarchodedig fel ar gyfer grwpiau LHDTC sydd dal yn anffodus yn dioddef casineb… mae dargyfeirio yn bwysig, ond i bobl ifanc sy'n dioddef troseddau casineb mae'n golygu cael rhywle i fynd lle y gallwch fynd i weld gweithiwr ieuenctid a theimlo eich bod yn cael eich diogelu, ac imi mae hynny'n un o brif elfennau diogelwch cymunedol".*

VYWS P8: *"… fel darparwyr rydyn ni'n darparu'r lleoedd diogel hyn hefyd, ac mae'r lleoedd diogel hyn yn cyfrannu at ddiogelwch cymunedol a'r gymuned gyfan, ac mae'n amhosib dweud a yw'n sesiwn breswyl, grŵp Cymraeg, grŵp LHDTC ac mae'n cynnig cymaint o fuddion ac mae diogelwch cymunedol yn dod yn ôl i fod yn treulio amser gyda chyfoedion, oedolion yn y gymuned y gellir ymddiried ynddynt a dangos parch i ddiwylliannau a chefndiroedd ein gilydd".*

PYO P8: *"Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o beth yw effaith gadarnhaol ar fywyd person. Chi'n gwybod, y teithiau llai hynny yr ydyn ni'n mynd â phobl ifanc arnyn nhw, … dydyn nhw ddim fel pe bae nhw'n ddigon i rai pobl …. Fe fyddwn ni'n cael pobl yn dod allan o'r tŷ am y tro cyntaf mewn blynyddoedd, ac mae hynny'n cael effaith anferthol ar eu bywydau…. dyw e ddim yn effeithio eich ystadegau chi, ond mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i fywyd y person ifanc".*

VYWS P7: *"…yn ein lleoliad ni mae ganddon ni feddwl agored iawn a goddefgarwch i wahaniaethau sy'n groes i'r duedd yn ein cymdeithas ar hyn o bryd a'r hyn sy'n digwydd ar y strydoedd ac mae gweld pobl ifanc yn bod yn oddefgar at ei gilydd yn rhoi gobaith inni ar gyfer y dyfodol. Mae gennym sesiwn galw heibio gyffredinol, gyda phobl ifanc NEET nesaf at grŵp LHDTC+ a does neb yn cymryd unrhyw sylw ac felly y dylai hi fod."*

*Ymddygiad gwrth-gymdeithasol / Llinellau Sirol*

PYO P7: ***"…**o ran diogelwch cymunedol [Awdurdod Lleol], yr hyn mae hynny wedi arwain ato yw creu cysylltiadau rhwng y gwasanaeth ieuenctid â grwpiau strategol a gweithredol ehangach o gwmpas yr agenda ddiogelwch, felly diogel [..] rhag ecsploetio. Felly ar hyn o bryd yn [Awdurdod Lleol] mae ganddon ni 27 o linellau yn gwerthu cyffuriau a gangiau yn yr Awdurdod Lleol] ac mae [enw'r gwasanaeth ieuenctid] yn cyfrannu at geisio tarfu ar y llinellau hynny trwy waith un ac un, atgyfeiriadau gan y gwasanaethau plant a chan gyfiawnder ieuenctid, ac mae'n cynnig gweithgareddau dargyfeiriol ond hefyd addysg a hyfforddiant priodol ar y cysyniadau allweddol hynny nad yw pobl ifanc o reidrwydd yn eu deall yn syth pan maen nhw'n ennill £1000 yr wythnos. Dydyn nhw ddim yn meddwl fod ganddyn nhw'r grym ac rydyn ni'n gweithio trwy ddefnyddio addysg a hyfforddiant yn ein hysgolion i wneud peth o'r gwaith ataliol 'na ynghylch gangiau, ecsploetio, defnyddio cyllyll yn ein cymunedau ac mae ganddon ni raglen gangiau rhith realiti."*

PYO P8: *"Yn debyg i beth mae pobl eraill yn ei ddweud, er ddim yn agos at fod mor wael â [Prif Swyddog Ieuenctid] gyda 27 o linellau, fe fuon ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda diogelwch cymunedol, yr heddlu ac fe lwyddon ni i darfu ar ein llinell sirol gyntaf ac mae'r ystadegau yn dangos ein bod wedi lleihau lefelau ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ofn o droseddu".*

*PYO P1:* "Mae ganddon ni gysylltiadau da iawn gyda'r cyfarfodydd CASP, y cyfarfodydd troseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol felly rydyn ni'n cael, chi'n gwybod, data da ar bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu mewn perygl o fod, rydyn ni'n cael rhestri bwrw, rydyn ni'n cael gwybod am ardaloedd lle y credir fod pobl ifanc yn ymgynnull. Felly, mae llawer o'n gwaith allgymorth yn defnyddio gwybodaeth felly a sgyrsiau gyda phobl ifanc".

*Gweithgareddau dargyfeiriol*

PYO P1: *"Roedd mwy o weithgareddau dargyfeiriol ar gael i bobl ifanc, ac roedd mwy o rôl fodelau cadarnhaol a mentora ar gyfer pobl ifanc …. parch a chydlyniant cymunedol…."*

VYWS P9: *"Beth mae pobl ifanc yn ei wneud os nad oes ganddyn nhw unrhyw le i fynd maen nhw'n gallu mynd mewn i sefyllfaoedd sy'n beryglus iawn a dydyn nhw ddim yn gwybod sut mae cael cefnogaeth, beth yw'r gost i'r heddlu ac eraill? …"*

PYO P17: "…trwy ddefnyddio'r dull amddiffyn cyd-destunol hwnnw, gallem roi ymyriadau gwaith ieuenctid yn yr ardaloedd gwaethaf. Gallwn gael gwaith ieuenctid datgysylltiedig ac allgymorth yn digwydd yn y cymunedau hynny ac mae hynny wedi bod yn ddigon llwyddiannus ac mae hynny wedi golygu ein bod wedi cael peth o arian y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardaloedd ymddygiad gwrth-gymdeithasol gwaethaf. Felly, rydyn ni'n recriwtio a phenodi rhywfaint o staff i weithio gyda thimau heddlua ardal ar yr hwb atal ymddygiad gwrth-gymdeithasol i fynd allan, mae'r heddlu'n ei alw'n batrolio. Rydyn ni'n ei alw'n waith ieuenctid datgysylltiedig neu allgymorth …. gyda'r bobl ifanc ifanc hynny allai fod allan yn chwilio am helynt.

Felly mae hynny'n rhywbeth yr ydyn ni wedi'i wneud yn arbennig o dda o fewn diogelwch cymunedol".

VYWS P14: "Mae diogelwch yn golygu cydnabod ymwybyddiaeth a gallu cysylltu ag eraill, felly mae bod yn rhan o gyd-destunau cymdeithasol yn cefnogi hyn… am pan mae pobl ifanc yn chwarae rhan lawn maen nhw'n dod yn ddinasyddion gweithredol a phan maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau maen nhw'n gallu cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen".

VYWS P6: "…ie pan feddyliwn ni am ddiogelwch cymunedol – rydyn ni'n tueddu mynd yn syth at ddull targedu / cynodiadau negyddol - ond mae'n llawer ehangach na hynny". Cyfeiriodd y person yma at yr astudiaethau enghreifftiol o'r gweithgareddau sy'n ennyn diddordeb pobl ifanc trwy chwaraeon trwy ddull cydnabyddedig i ddatblygu a chefnogi diogelwch cymunedol (gweler y dolenni ar ddiwedd y vignette)

*iii. Llesiant ac Iechyd Emosiynol*

Nodwyd fod maes effaith llesiant a iechyd emosiynol yn faes gwaith y mae gwaith ieuenctid yn ymhel ag ef fwy a mwy ac yn gwneud argraff arno trwy weithio mewn partneriaeth trwy ddarparu cefnogaeth trwy weithgareddau gwaith ieuenctid:

*Partneriaethau i hyrwyddo mynediad at gymorth gyda llesiant ac iechyd emosiynol*

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn faes allweddol a drafodwyd ac y mae gwaith ieuenctid yn cyfrannu iddo yng nghyd-destun llesiant a iechyd emosiynol:

PYO P1: *"Grŵp arall yr ydyn ni'n aelod ohono, ac rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn, yw'r panel gofod, sy'n ymwneud â llesiant emosiynol a iechyd meddwl. Mae hwn yn grŵp aml-asiantaeth sy'n cwrdd bob dydd Iau ac mae cyfarfod dyrannu cyn y panel ar ddydd Mawrth. Mae pobl sy'n atgyfeirio iddo, fe allwch hunan-gyfeirio, mae rhieni yn cyfeirio at ysgolion GPS, gall unrhyw sefydliad atgyfeirio ac yna mae ganddon ni brosiect o'r enw [enw'r prosiect] sy'n ymwneud â llesiant emosiynol a iechyd meddwl, felly rydyn ni'n derbyn atgyfeiriadau ar sail y fethodoleg rydyn ni'n ei defnyddio sy'n anghlinigol….rydyn ni'n gweithio un ac un neu mewn grwpiau bach ac mae'r canlyniadau a'r perthnasoedd a'r effaith a'r deilliannau rydyn ni'n eu cael, mae pawb wastad yn dweud eu bod gymaint yn well na'r berthynas oedd gan y person hwnnw/honno gyda'u gweithiwr CAMHS neu gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol neu beth bynnag, chi'n gwybod mae'n ymddangos mai ni yw'r bobl cwl y mae'n iawn bod gyda nhw ac mae pobl ifanc yn iawn gyda hynny*".

VYWS P11: *"Rydyn ni wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y bobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac rydyn ni'n gweithio gyda [Enw Bwrdd Iechyd Lleol] ac mae ganddon ni 3 hwb iechyd meddwl sydd i fod ar gyfer atgyfeiriadau lefel isel ond mae'r atgyfeiriadau rydyn ni'n eu cael yn rhai lefel uchel ac mae'r rhestr aros yn enfawr, mae angen llawer mwy o adnoddau. Mae'n gysylltiedig â meysydd eraill fel tai, mae ganddon ni grŵp LHDTC+ ac mae 'na gysylltiad amlwg rhwng iechyd meddwl a digartrefedd ymhlith pobl ifanc o'r gymuned. Unwaith eto mae'n anodd iawn edrych ar y categorïau unigol mae'r cyfan yn cysylltu â'i gilydd".*

VYWS P7: *"…ar gyfer iechyd meddwl a llesiant rydyn ni'n cael arian gan Fwrdd Iechyd lleol ar gyfer ymyriadau cynnar, yn ein lleoliad gwaith ieuenctid traddodiadol mae hyn yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn lliniaru materion i'r dyfodol, o edrych ar y peth o safbwynt economaidd yng nghyd-destun y GIG maen nhw'n derbyn fod*

*ein gwaith yn gwneud cryn argraff, a'i fod yn cyffwrdd â sawl maes ac mae gennym astudiaethau enghreifftiol o bob maes".*

*Cefnogaeth / gweithgareddau gwaith ieuenctid*

VYWS P6: *"Fe fyddwn i hefyd yn adleisio'r pwyntiau ynghylch iechyd meddwl a llesiant a'r angen am gefnogaeth 'anffurfiol' trwy leoliadau [chwaraeon] i bobl ifanc oherwydd y rhestri aros anhygoel o hir a'r methiant i gyrraedd y trothwy i gael atgyfeiriad trwy ysgol neu feddyg teulu. Erbyn hyn mae disgwyl i weithwyr ieuenctid a darparwyr chwaraeon i bobl ifanc ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt ddarparu'r gefnogaeth/gwasanaeth hwn ar lawr, ond heb y gefnogaeth briodol ddylai fod ar gael gan weithwyr proffesiynol".*

VYWS P2: *"Mae llawer o'n clybiau yn rhai chwaraeon sy'n golygu fod yna gysylltiadau amlwg â iechyd a llesiant, ond maen nhw wedi dod o hyd i fylchau o ran iechyd meddwl i ddynion ifanc ac yn anffodus mae llawer o'n clybiau wedi gweld hynny drostynt eu hunain ac wedi dechrau darparu gwasanaethau ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol ac mae gan lawer o'n clybiau hybiau llesiant erbyn hyn…"*

*iv. Addysg a Hyfforddiant*

Trafodwyd rôl gwaith ieuenctid yn hyrwyddo addysg a hyfforddiant. Roedd hyn yn cynnwys pwysigrwydd datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol trwy waith ieuenctid i helpu pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant, a thrafodwyd hefyd y ffordd y mae gwaith ieuenctid yn cefnogi gweithgarwch economaidd trwy brentisiaethau:

*Datblygu hyder / sgiliau cymdeithasol*

VYWS P9: *"…mae pobl ifanc sy'n dechrau gweithio gyda ni yn magu hyder ac yn llwyddo i gael gwaith yn y pendraw gan eu bod angen y cam cyntaf yna ar yr ysgol trwy gael stwff ar gyfer CV ond hyder yn fwy na dim, a chefnogaeth i'w gwaith".*

*PYO P18: "…bydd cael llais ar y materion yn eu heffeithio ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Ac rydw i'n gobeithio mai un o'r buddion disgwyliedig yw ein bod yn tyfu'n aelodau cyfrifol ac abl o'r gymuned a'n bod yn teimlo'n rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. A hefyd, mae'n debyg fod gwaith ieuenctid yn gyfle i edrych ar fywyd trwy lens aml-weddog y cyfnod hwnnw rhwng plentyndod a dod yn oedolyn."*

PYO P17*: "O ran cysylltu gyda sgiliau cymdeithasol hefyd, gyda'r pum ffordd llesiant felly rhyngweithio gyda chyfoedion, bod yn rhan o'r gymuned, felly mae'r pum pwynt rydych wedi cyfeirio atyn nhw yma fel rhan o'r cwestiwn hwn yn clymu at ei gilydd mewn gwirionedd ac mae'n debyg mai dyma ran fwyaf y gwaith rydyn ni'n ei wneud".*

PYO P14*: [gall gwaith ieuenctid] "fynd i'r afael â'r risgiau hynny o roi'r gorau i addysg neu gefnogi gallu pobl ifanc i ddal ati'n llwyddiannus gyda'u haddysg. Mae ganddon ni'r amser sy'n aml ddim gan athrawon mewn sefyllfa ysgol i roi cefnogaeth un ac un, eu mentora nhw, a mynd i'r afael â'r anghenion sydd gan y bobl ifanc o ddifrif a theilwra darnau o waith, boed hynny'n waith un ac un neu mewn grwpiau bychain i fynd i'r afael â'r materion hynny sydd, chi'n gwybod, yn effeithio pobl ifanc sy'n syrthio allan o'u haddysg".*

PYO P15: *[trwy waith ieuenctid digidol ar-lein] "rydyn ni'n gallu gweithio gyda phobl ifanc sydd yn llawer mwy ynysig yn gymdeithasol ac mae'r enillion yn sylweddol iawn".*

*Cyfraniad economaidd*

PYO P8: *"…rydyn ni'n gwneud llawer o waith yn atal pobl ifanc rhag cael gafael ar y gwasanaethau cost uchel hynny. Felly, os gallen ni gael gwerth allan o hynny, byddai hynny'n wych".*

VYWS P8 *"…hefyd yn [enw sefydliad] mae diogelwch economaidd yn rhan o gynnig swyddi ar gyfer pobl ifanc a gwerth ac ail-fuddsoddi yn y gymuned leol a swyddi yng nghefn gwlad Cymru a thrwy brentisiaethau".*

PYO P20*: "rydyn ni'n edrych ar ein llwybr at swydd mewn gwirionedd. Felly, cylch cyflawn cael eich cyflogi yn weithiwr ieuenctid. Felly, rydyn ni wedi ail-wampio'r rhaglen arweinyddion ifanc, sy'n cysylltu gyda gwirfoddoli a hyfforddiant mae'n debyg. Felly, rydyn ni'n edrych ar gyfleoedd i bobl ifanc, sy'n cysylltu gyda'r cymwysterau a'r sgiliau maen nhw'n eu hennill. Felly, rydyn ni'n eu symud nhw ymlaen, a'r gobaith yw y dylai fod llwybr ar gyfer arweinyddion ifanc. Ac maen nhw fel petaen nhw'n cael hynny pan maen nhw'n 14 + oed ac yna'n symud i fath o weithiwr clwb ieuenctid ac efallai cysylltiadau â cholegau, prifysgol a rhagor o gymwysterau. Felly, rydyn ni'n edrych ar y math yna o gylch mewn gwirionedd i gynnig cyfle i bobl ifanc".*

v. Cymuned a Gwirfoddoli

Yn y trafodaethau yn y grŵp ffocws roedd cymuned a gwirfoddoli'n cael eu gweld yn rhan hanfodol o'r hyn y mae gwaith ieuenctid yn ei gynnig i bobl ifanc:

VYWS P2*: "Rydw i'n credu fod Cymuned yn golygu fod pobl ifanc yn teimlo'n rhan o'u cymunedau. Gall hynny fod trwy iddyn nhw wirfoddoli neu ddim ond cymryd rhan mewn digwyddiadau. Cyfarfod a theimlo fod gwerth iddynt yn y gymuned. Hefyd yn [enw sefydliad] a sefydliadau eraill yma. Mae oedolion yn gwirfoddoli yn arbed symiau enfawr o arian i'r cyhoedd ac mae'n llesol i bobl ifanc …"*

PYO P8*: "…cymuned a gwirfoddoli a daeth yr adroddiadau DV allan yn ddiweddar ac maen nhw'n rhoi gwerth i'r gwirfoddoli. Felly, chi'n gwybod, er enghraifft, mae gwerth tua 46 K o wirfoddolwyr yn [Awdurdod Lleol], ond fe welwch chi hynny ymhob rhan o Gymru rwy'n credu".*

PYO P15: "…*mae'n amlwg y bydd y bobl ifanc yn gwirfoddoli ac fe soniwyd am wobr Dug Caeredin sy'n rhan annatod o hynny ac mae hynny'n arwain yn aml iawn atyn nhw'n aros yn beth bynnag roedden nhw'n gwirfoddoli ynddo y tu hwnt i'r amser roedden nhw'n gwneud gwobr Dug Caeredin ac fe ddaeth hynny'n ffordd i mewn i waith ieuenctid. Ond dydyn ni ddim yn cael y sgiliau oddi wrth bobl eraill yn y gymuned… mae pawb yn awyddus i gael eu talu, ac a bod o ddifrif, mae'n rhaid iddyn nhw gael rhyw fath o gymhelliant i ddod yn ôl a dod yn wirfoddolwyr".*

*vi. Tai*

Amlinellodd y grwpiau ffocws y rôl y mae gweithwyr ieuenctid yn ei chwarae yn adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref:

VYWS P6: *"Mae tai yn gwneud gwaith ataliol hefyd oherwydd pan rydyn ni'n gweithio gyda phobl ifanc rydyn ni'n gweld y bobl sydd mewn perygl o fynd yn ddigartref. Felly fe allan nhw fynd mewn i lwybr a systemau digartrefedd, felly fe allwn ni wneud llawer o waith ataliol gyda nhw.. a gwneud argraff go fawr ar hynny".*

PYO P7: *"Materion atal digartrefedd trwy ddysgu sgiliau byw annibynnol. Mae hynny, chi'n gwybod, yn addas ar gyfer y cwricwlwm anffurfiol a gwaith ieuenctid Drws Agored…"*

PYO P15: *"Mae tai yn ddiddorol hefyd oherwydd rwy'n credu mai'r ateb syml yw, waeth beth mae eich gwasanaeth ieuenctid yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'r arian a gawn ni ar gyfer yr agenda honno, efallai fod 'na bethau eraill rydych chi'n eu gwneud. Fe fydd 'na bethau eraill rydych chi'n eu gwneud ar yr agenda yna. Beth bynnag fydd y canlyniad fe fydd yn anodd profi yn negyddol, ond bydd llai o bobl ifanc yn mynd yn ddigartref. Ac rwy'n credu fod hynny'n haenog gan ei fod yn dechrau gyda negeseuon. Rydyn ni'n gallu rhoi rhai mewn lleoliadau addysgol fel ysgol neu goleg am y stwff allgymorth rydyn ni'n ei wneud yn ddiweddarach, ac yna stwff arall wedi'i dargedu yn ogystal â'r stwff am dai yn benodol. Felly, mae'n golygu mwy na'r gefnogaeth a roddwn i bobl ifanc mewn argyfwng, mae'n cynnwys yr holl stwff rydyn ni'n ei wneud cyn inni gyrraedd fanna. Pan fydd pobl ifanc yn dweud pethau yn y clwb ieuenctid fel, o, pan rydw i'n 16, fe fydda i'n cael fy nhŷ fy hun a phethau felly. Chi'n gwybod? Felly…. Mae'n cael ei herio mewn rhyw fath o ffordd sgyrsiol a'i arwain tuag at ryw feddwl, rhyw feddwl am hwnna".*

*vii. Gweledigaeth a rhwystrau*

Trafodwyd y weledigaeth strategol ar gyfer gwaith ieuenctid yn y grwpiau ffocws. Fe nodwyd mai rhan ganolog o'r weledigaeth yw *"...gweledigaeth y canlyniadau gorau i bobl ifanc …"* [VYWS P13]. Roedd pawb yn nodi mai natur unigryw y dull gwaith ieuenctid oedd yr allwedd i'w weledigaeth strategol. Fodd bynnag, i lawer o Brif Swyddogion Ieuenctid a VYWS roedd eu gweledigaeth a'u dyheadau ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg arian ac ansefydlogrwydd, materion denu a chadw staff a diffyg dealltwriaeth o ddull ac arlwy gwaith ieuenctid:

*Dulliau gwaith ieuenctid:*

Mae'r ffaith fod y dull gwaith ieuenctid yn canolbwyntio ar y person ifanc ac ar gyfranogi ac ymgysylltu gwirfoddol yn cael eu hystyried yn elfennau hanfodol:

VYWS P1: *"Fe fyddwn i'n honni mai un o'r pethau sy'n sail i bob un o'r 5 agwedd [meysydd effaith] a manteision gwaith ieuenctid yw'r model cyfranogi a sut mae [enw] a'r perthnasoedd gwaith gwirfoddol gyda phobl ifanc ac oedolion hŷn, mai dyna sy'n eu clymu nhw i gyd at ei gilydd a dyma beth sydd gan y sector gwaith ieuenctid i'w gynnig nad yw eraill yn neu ddim yn gallu eu gwneud. Felly, byddai cymryd rhan yn eu clymu nhw oll at ei gilydd gan fod y sector yn dda iawn am wneud hynny…*

VYWS P6*: "Nid yw gwaith ieuenctid yn un maint i bawb, mae hynny'n bwysig iawn ac mae hwnnw'n wahaniaeth pwysig gan nad yw hynny'n wir mewn gwasanaethau mewn meysydd eraill. Mae 'na hyblygrwydd ac rydyn ni'n canolbwyntio ar y person, ac mae hynny'n rhan allweddol o pam mae gwaith ieuenctid mor effeithiol pan mae'n cael ei wneud yn dda iawn. Mae'n fater o roi'r bobl ifanc yn gyntaf a'u deall nhw yn eu cymunedau a'u cyd-destunau eu hunain".*

*PYO P10: "yn amlwg rydyn ni'n llawer mwy anffurfiol, fe allwn ni gyfarfod pobl ifanc mewn lleoedd gwahanol. Dydyn nhw ddim yn ein galw ni'n Syr neu chi'n gwybod, dim byd fel 'na ond rwy'n credu fod y ffordd mae ein staff yn gweithio, yn anffurfiol, rhoi'r person yn gyntaf, chi'n gwybod, mae hynny'n wirfoddol. Dyw'r bobl ifanc ddim yn gorfod gweithio gyda ni os ydyn nhw'n cael eu cyfeirio aton ni, ond rwy'n credu eu bod yn cael eu trin yn sensitif iawn, maen nhw'n cael eu gwerthfawrogi, maen nhw'n cael eu parchu a dydw i ddim yn meddwl ei bod yn dilyn mai dyna eu profiad gyda*

*gweithwyr proffesiynol eraill, ond mae rhai o'r canlyniadau gawn ni a'r diolch a'r adborth, chi'n gwybod, yn wych".*

*Cyllido / Datblygu'r gweithlu*

Mae mater toriadau ariannol ac effaith hynny ar ddatblygu'r gweithlu ac ar weledigaeth strategol gwaith ieuenctid yn amlwg o drafodaethau'r grwpiau ffocws:

> PYO P6: "*Erbyn hyn rydyn ni lawr i 20% arian craidd, 80% grant. Wel, chi'n gwybod mae'r weledigaeth yn gorfod newid o flwyddyn i flwyddyn gan ddibynnu ar feini prawf grantiau a pha grantiau sydd ar gael inni ar gyfer cyflawni'r anghenion hynny. Ac ar gyfer y gwasanaethau hynny yn [Awdurdod Lleol] rydyn ni wedi blaenoriaethu gwasanaethau cyffredinol gyda'n harian craidd a'n gwasanaethau hefyd sy'n cael eu cefnogi trwy waith wedi'i dargedu fel chi'n gwybod bwrw ar elfen diogelwch cymunedol, iechyd a llesiant ar gyfer y teuluoedd yn gyntaf, agenda NEETS … yr anhawster yw cael y weledigaeth gan bob un ohonon ni a chi'n gwybod mae ganddon ni fuddsoddiad a sefydlogrwydd er mwyn gwneud cynlluniau i wneud pob un o'r isod sy'n ddisgwyliedig o ran yr elfen gymunedol ehangach honno a'r effaith ar gyfer pobl ifanc. Ond allwch chi ddim gwneud hynny heb arian, heb gyllideb a gallai 80% o'm gwasanaeth i gael ei golli erbyn mis Mawrth nesaf".*
>
> *PYO P5: "Yn dilyn [Prif Swyddog Ieuenctid] o ddifrif, chi'n gwybod, i gael y weledigaeth, mae'n rhaid ichi gael y bobl iawn yn y lle iawn, does bosib? Ac rwy'n credu, chi'n gwybod, rydyn ni wedi'i chael yn anodd fel sector o ran, chi'n gwybod, denu a chadw staff oherwydd sefydlogrwydd ac ansicrwydd yr ariannu. Chi'n gwybod, allwn ni ddim rhoi'r mathau hynny o gontractau parhaol i bobl. Rydyn ni'n cynnig fel, chi'n gwybod, contractau 12 mis a chi'n gwybod mae gan bobl deuluoedd, mae gan bobl forgeisi ac mae'n rhaid i bobl wybod fel ei fod yn cael effaith ar y weledigaeth y gallwn ni ei chyflawni".*
>
> VYWS P1: "*Mae cyllid yn rhwystr mawr o ran datblygu'r gweithlu, ac un o'r rhai mwyaf yw ein bod yn rhan o'r sector addysg a hwn yw'r talcen caletaf ond mae sectorau eraill yn ein croesawu â breichiau agored…Denu staff, cadw staff, datblygu'r gweithlu, deall beth rydyn ni'n ei wneud…"*
>
> PYO P5*: "…ac fe fuon ni yn yr un sefyllfa â [Awdurdod Lleol] yn gorfod cael toriadau mawr. Chi'n gwybod, roedd ganddon ni 16 clwb ieuenctid neu adeilad ieuenctid ac erbyn hyn mae ganddon ni bump. Dydyn ni ddim yn berchen ar yr adeiladau. Chi'n gwybod, ond rydyn ni fel yn rhentu lleoedd yn hytrach na chael y gofod cymunedol hwnnw oedd ganddon ni ar un adeg".*
>
> PYO P3*: [cyflogau gweithwyr ieuenctid] "Pan edrychwch chi ar draws y wlad, er bod amrywiaeth o un awdurdod lleol i'r llall, mae yna hefyd lawer o synergedd ynghylch faint mae nyrsys yn ennill, swyddogion heddlu, athrawon, gweithwyr cymdeithasol…. Mae'r gwahaniaeth rhwng beth mae [gweithwyr ieuenctid] yn ei ennill …..yn enfawr, chi'n gwybod mae'n rhywbeth fel 10-12K o wahaniaeth felly os ydych chi eisiau gwasanaeth o ansawdd da ar draws Cymru mae'n rhaid ichi gael synergedd. Rydych chi angen graddfeydd cyflog, rydych chi angen i bopeth weithio gyda'i gilydd, oherwydd fel arall fe fydd ganddoch chi bocedi o waith da a bydd pobl ifanc eraill dan anfantais oherwydd daearyddiaeth".*

*GweledEdd / Dealltwriaeth o ddulliau gwaith ieuenctid*

Amlinellwyd yr angen i godi proffil a gwella dealltwriaeth o waith ieuenctid ar bob lefel yn y grwpiau ffocws:

> PYO P12: *"O ran yr awdurdod lleol mae'n gorfod bod…y ddealltwriaeth gan Aelodau etholedig o beth yw gwaith ieuenctid a'u hagendau yn y gymuned, a ydynt yn gwerthfawrogi pobl ifanc yn y gymuned neu a ydyn nhw'n gweld pobl ifanc yn niwsans yn y gymuned. Felly, chi'n gwybod, mae'n dibynnu ar yr Aelodau unigol hynny a chi'n gwybod yma yn [Awdurdod Lleol] rydyn ni'n ceisio gweithio gyda'n Haelodau, ond mae rhai ohonyn nhw'n gyndyn, yn wrthwynebus ac yn dal i weld pobl ifanc fel niwsans yn eu cymuned. Rwy'n credu ei bod yn bwysig o ran rhwystr oherwydd ie, mae yn cymryd llawer o amser os oes ganddoch chi Aelod etholedig sydd ddim yn deall pobl ifanc, sydd ddim yn deall ieuenctid".*

> PYO P8: *"Roedden ni yn un o'r ychydig wasanaethau allan yn y gymuned oedd yn dal i weithio gyda phobl a beth wnaeth hynny oedd …. codi proffil gwaith ieuenctid ac ebyn hyn mae'r galw ar weithwyr ieuenctid wedi mynd drwy'r to ond does ganddon ni mo'r capasiti yn yr un ffordd ag a ddywedodd [Prif Swyddog Ieuenctid] am ddarpariaeth yn y gymuned….. fe fyddwn i'n darparu'r gwasanaethau hyn pe bai'r arian ganddo ni, ond does ddim".*

> PYO P2: *[efallai y bydd rhaid inni amddiffyn]"…pam mae gwaith ieuenctid yn 11 i 25. Rydw i'n gwybod ein bod ni wedi gorfod ymladd brwydr ac efallai fod un ar y gorwel eto ar gyfer gweithwyr ieuenctid i gofrestru'n ofalwyr plant a chi'n gwybod, rydyn ni wastad wedi dweud, wel, yn y lle cyntaf mae gofal plant dan 11 ac rydyn ni'n delio â phobl ifanc dros 11 ac yn ail mae gwaith ieuenctid yn ddarpariaeth addysgol, nid gofal plant. Oherwydd hynny, rydyn ni fel wedi gwthio'r dadleuon hynny i ffwrdd, ond mae 'na… ddadl athronyddol, chi'n gwybod, lle y mae gwyddor niwrolegol yn profi mwy a mwy gydag amser. Rydyn ni'n gwybod erbyn hyn fod yr ymennydd dynol yn hydrin ymhell i mewn i ddiwedd yr 20au. Sôn am wneud gymaint ag y gallwn o'n henillion gyda phobl ifanc, mae hyn yn rhywbeth rydyn ni'n ei golli eto, oherwydd mae'r holl arian wedi mynd mewn i, chi'n gwybod, y mil diwrnod cyntaf, y blynyddoedd cynnar ac fel, does neb yn amau nad ydyn nhw'n bwysig ond mae angen cydnabyddiaeth a gwell dealltwriaeth o niwroleg a gwell trefn wedyn ar gyfer dyrannu cyllid ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc [yn eu llencyndod ac yn oedolion ifanc]".*

**Meddyliau i gloi**

Mae'r grwpiau ffocws gyda'r VYWSO a'r Prif Swyddogion Ieuenctid yn dangos sut mae'r sector yn cydnabod trwy ei ddull gwaith ieuenctid penodol y gall ac y mae yn gwneud cyfraniad cadarnhaol yn y pum maes effaith, a hynny'n aml mewn ffordd holistaidd.

Mae'r weledigaeth o fod eisiau parhau i hyrwyddo "deilliannau cadarnhaol" ar gyfer pobl ifanc Cymru yn amlwg, ac mae hynny er gwaethaf rhai o'r rhwystrau a nodwyd o ran cyllido cynaliadwy, cadw/denu gweithlu a'r angen i sicrhau y ceir cydnabyddiaeth fod gwaith ieuenctid yn ddull o weithio a werthfawrogir.

Enghreifftiau o astudiaethau enghreifftiol, gwerthusiadau / ymchwil a chynlluniau cymunedol sydd ar gael yn gyhoeddus sy'n dangos effeithiau ehangach gwaith ieuenctid yng Nghymru:

1. Camau ar gyfer ein Cymuned – Crynodeb o'r Cynllun Cymunedol ar gyfer Trelai a Chaerau 2024 (aceplace.org)
2. Astudiaeth Gymunedol-Jack_YMCASWANSEA.pdf
3. Astudiaethau Cymunedol – Her Cymru
4. FW Cyngor Sir Ceredigion diwygiwyd Mawrth 2023 Prosiect Cefnogi ac Atal (002).pdf.msg
5. Safer Streets Fund- QuIP Study - Bath SDR : Bath SDR
6. StreetGames Theory of Change - StreetGames
7. Adroddiad Effaith Economaidd yr Urdd: https://www.urdd.cymru/files/2117/0125/3245/Adroddiad Egffaith Economaidd yr Urdd_2022-23.pdf
8. https://linktr.ee/PAC_Cymru
9. https://waleswithoutviolence.com/
10. https://mediaacademycymru.wales/peer-action-collective/